



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Adroddiad Dadansoddi: Diwygiad 1A

Gweithgareddau Newydd ar Dir Mynediad
y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW)

Crynodeb Gweithredol Diwygiad 1A – Ymestyn hawliau ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A

"Galluogi beicio, marchogaeth, barcuta, paragleidio, ymdrochi, defnyddio cwch neu fwrdd hwylio¹ i ddiwydd drwy hawl ar dir sydd â hawl mynediad o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000."

Ystyriwyd tri opsiwn i gyflawni bwriad polisi 1A, sef:

- i. Diwygio Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i ymestyn yr hawl i ddefnyddio tir mynediad sy'n bodoli eisoes o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i hawliau uwch (beicwyr, marchogwyr, paragleidwyr, pobl sy'n ymdrochi/nofio, ac ar gyfer cychod na cheir eu pweru). Ni fyddai hawliau uwch yn cael eu hymestyn i dir mynediad arfordirol o dan y diwygiad hwn. Defnyddio'r pwerau sy'n bodoli eisoes o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i reoli, eithrio neu gyfyngu'r hawliau mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.
- ii. Darparu pwerau ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i gymhwyso hawliau mynediad uwch i ardaloedd o dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a ddiffinnir yn ddetholus yn seiliedig ar asesiad o 'addasrwydd' y tir. Cymhwyso deddfwriaeth o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sy'n bodoli eisoes i reoli'r hawliau fel y'i hymestynnir.
- iii. Diwygio deddfwriaeth i roi pwerau i awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i ddiffinio'n ddetholus lwybrau/coridorau llinol drwy dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy lle mae cyfyngiadau Atodlen 2 wedi'u codi ar gyfer y gweithgareddau a nodir. Bydd y coridorau yn rhoi hawl mynediad ar gyfer beicio a marchogaeth ceffylau o leiaf.

Y materion cyffredin allweddol a nodwyd ar gyfer cyflawni opsiynau 1A oedd fel a ganlyn:

- Bydd angen modd cyson ar ddiwygiad 1A i asesu addasrwydd y tir ar gyfer cymhwyso hawliau uwch a/neu gyfyngu neu eithrio hawliau mynediad, p'un ai ar sail hirdymor neu dros dro.
- Bydd lleihad i atebolrwydd meddianwyr yn gymwys i unrhyw hawliau mynediad 1A a ddarperir o'r newydd. Dylid cymhwyso'n gyson unrhyw newid i leihau atebolrwydd ymhellach ar yr holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gan gynnwys tir mynediad arfordirol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy os y'i cyflwynir.
- Bydd yn bwysig i'r opsiwn diwygio gynnwys ymgyrch gyfathrebu i sicrhau bod pobl yn deall yr hawliau a chyfrifoldebau hamdden newydd ac yn cydymffurfio â hwy.
- Er bod y diwygiad yn ddichonadwy heb gyflwyno cod mynediad statudol newydd, mae potensial i gysylltu diwygiad 1A (fel diwygiadau eraill y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad) â diwygio codau mynediad i helpu i reoli hawliau a hyfrifoldebau, gan gynnwys cryfhau mesurau gorfodi ac eithrio neu gyfyngu mynediad.

¹ Cyfeiriwyd yn gyfunol at y gweithgareddau hyn a restrir fel 'hawliau uwch' o fewn cyd-destun Diwygiad 1A

Materion allweddol a godwyd sy'n benodol i'r opsiynau amrywiol a gynigiwyd

- Byddai Opsiwn 1A(i) yn gymwys i'r holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac yn hawdd ei ddeall. Byddai Opsiynau 1A(ii) ac 1A(iii) yn cymhwyso hawliau'n ddetholus i lai o dir mynediad.
- Newid statudol Opsiwn 1A(i) i ymestyn hawliau uwch i dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fyddai'r symlaf a'r cyflymaf i'w weinyddu.
- Mae'n bosibl y bydd angen i'r cymhwyso detholus o hawliau a gynigiwyd yn Opsiynau 1A(ii) ac 1A(iii) ddarparu iawndal ar gyfer tirfeddianwyr.

Cyflwyniad

Gofynnwyd i'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad ddatblygu cyngor ac argymhellion i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chyflenwi bwriad ei pholisi i ddiwygio deddfwriaeth mynediad hamdden yng Nghymru.

Mae'r broses a sefydlwyd i ddatblygu'r cyngor wedi'i chrynhai isod:



Y meysydd diwygio deddfwriaethol y mae'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad yn eu hystyried yw:

- Diwygiad 1A: Ymestyn yr hawliau i ddefnyddio tir mynediad presennol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW)
- Diwygiad 1B: Newidiadau i deddfwriaeth er mwyn ymestyn tir mynediad CRoW i'r arfordir
- Diwygiad 2A: Ymestyn yr hawl i reidio beic neu geffyl ar lwybrau troed cyhoeddus
- Diwygiad 2B: A chyfyngiadau dros dro ar lwybrau cyhoeddus
- Diwygiad 3A: Darparu map integredig o fynediad cyhoeddus yng Nghymru
- Diwygiad 3B: Dull integredig o gynllunio mynediad cyhoeddus yng Nghymru

Am ragor o wybodaeth am broses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad a chanlyniadau pob cam hyd yma, ewch i: <https://llyw.cymru/y-grwp-cyngori-ar-ddiwygio-mynediad>.

Mae'r adroddiad dadansoddi Diwygiad 1A hwn o'r opsiynau diwygio wedi'i gynhyrchu gan ddilyn tystiolaeth a chyfraniadau eraill y gofynnwyd amdanynt gan:

- Fforymau mynediad lleol [22]
- Aelodau'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol [37 sefydliad]
- Aelodau o grwpiau arbenigol y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad [28 cynrychiolydd]
- Cadw
- Derbyniwyd mewnbwn arbenigol gan gynghorwyr polisi mynediad hamdden Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal ag arbenigwyr o bob rhan o gylch gwaith y sefydliad, gan

gynnwys cadwraeth natur, polisi morol a rheoli tir. Mae adroddiad o'r ymatebion ar gael drwy'r ddolen we a nodir uchod.

Mae gan bob maes diwygio adroddiad dadansoddi sy'n defnyddio'r dystiolaeth a'r ymatebion allweddol a dderbyniwyd gan randdeiliaid er mwyn cyflwyno asesiad o bob opsiwn diwygio. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys tair prif ran:

- **Tabl asesu meini prawf:** Cymharu ffeithiau a materion allweddol ar gyfer pob opsiwn yn erbyn meini prawf y rhaglen sefydledig
- **Sylwebaeth** ar yr opsiynau
- **Tablau diwygio'r opsiynau:** Crynhoi'r materion i'w hystyried ar gyfer pob opsiwn

Ar draws y meysydd diwygio, 1A, 1B, 2A ac yn y blaen, mae yna themâu i'w hystyried o fewn yr opsiynau, sef:

- Gweithgareddau hamdden cyfrifol
- Cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd
- Cyfrifoldebau'r fforymau mynediad lleol o fewn yr opsiynau diwygio
- Gweithgareddau a digwyddiadau masnachol

Er bod y themâu hyn yn cael eu hystyried ym mhob maes diwygio, mae adroddiad dadansoddi trawsbynciol ar wahân yn mynd i'r afael â'r materion cyffredin sy'n codi a sut mae'r themâu yn berthnasol ar draws diwygiadau'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Bydd yr adroddiad dadansoddi trawsbynciol terfynol ar gael hefyd drwy wefan Llywodraeth Cymru – gweler y ddolen [yma](#).

D.S.: ar bwyntiau amrywiol ar draws Diwygiad 1A, cyfeirir at Bennod 3, Rhan 1 o'r Deddf CRow (adrannau 34 i 39) o ran hwyluso mynediad o fewn tir mynediad. Ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicr a yw Pennod 3 yn cyflawni hyn, felly yn yr adroddiad hwn rydym wedi tybio nad yw Pennod 3 yn cwmpasu mynediad o fewn tir mynediad. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried ymhellach a yw adrannau 34 i 39 eisoes yn darparu'r pwerau sydd eu hangen wrth ddatblygu Diwygiad 1A.

Diwygiad 1A – Gweithgareddau newydd ar dir mynediad CRow

Cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd = 35; cyfanswm y sefydliadau a ymatebodd hyd at 20 Gorffennaf 2020 = 19; ymatebion mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru = 16.

Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A

Galluogi beicio, marchogaeth, barcuta, paragleidio, ymdrochi, defnyddio cwch neu hwyllfwrdd² drwy hawl ar dir sydd â hawl mynediad o dan Ddeddf CRow 2000.

² Cyfeirir at y gweithgareddau a restrir gyda'i gilydd fel 'hawliau uwch' yng nghyd-destun Diwygiad 1A.

Tabl 1: Diwygiad 1A Teitlau a disgrifiadau amlinellol yr opsiynau

| 1A: Teitl y cynnig amlinellol | Disgrifiad cryno o'r cynnig amlinellol |
|--|---|
| i. Cyfyngiadau diwygiedig Atodlen 2 CRow | Diddymu cyfyngiadau hawliau uwch yn Atodlen 2 CRow (ac eithrio tir arfordirol 1B). Defnyddio trefn CRow gydag eithriadau a chyfyngiadau fel y mae yn awr / neu wedi'i newid. Atgyfnerthu ymddygiad cyfrifol, e.e. drwy god statudol. |
| ii. Cymhwyso hawliau uwch ³ yn amodol ar asesiad o alw/addasrwydd | Cymhwyso hawliau uwch yn ddetholus i feysydd diffiniedig o dir CRow yn seiliedig ar asesiad o addasrwydd. |
| iii. Hawliau uwch ar lwybrau diffiniedig CRow (dull coridor) | Llwybr/coridor llinellol diffiniedig drwy dir CRow lle mae cyfyngiadau Atodlen 2 yn cael eu codi ar gyfer gweithgareddau datganedig |

OPSIYNAU DIWYGIAD 1A(i)

Teitl: Cyfyngiadau diwygiedig Atodlen 2 CRow

1A(i) Disgrifiad:

Diddymu cyfyngiadau hawliau uwch Atodlen 2 CRow⁴ (ac eithrio tir arfordirol 1B). Defnyddio trefn CRow gydag eithriadau a chyfyngiadau fel y mae yn awr / neu wedi'i newid.

Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig yn Opsiwn 1A(i)

Mae Opsiwn 1A(i) yn darparu ar gyfer deddfwriaeth i ddiwygio Atodlen 2 CRow⁵ i roi hawl i farchogion, beicwyr, barcutwyr, paragleidwyr a'r rhai sy'n defnyddio dŵr (y rhai sy'n defnyddio cwch, hwyllwrdd neu'n ymdrochi mewn dŵr di-lanw) ymgymryd â'r gweithgareddau hyn ar dir sy'n hygyrch yn awr o dan Ddeddf CRow 2000. Fodd bynnag, ni fyddai ganddynt hawl os yw'r tir yn dir a eithrir (o dan Atodlen 1 CRow),⁶ mae yna eithriad/cyfyngiad (o dan Ran I, Pennod II CRow)⁷ neu ceir deddfwriaeth arall sy'n eithrio'r hawl (e.e. darpariaethau o dan Reoliadau COVID-19).

Ni fyddai'r opsiwn yn galw i fapiau newydd gael eu paratoi o dir mynediad CRow. Byddai'r gyfres bresennol o hysbysiadau ac eithriadau CRow ar gael i gau tir mynediad. Byddai'r mapiau'n cael eu hadolygu bob 10 mlynedd yn ôl yr arfer, gyda thirfeddianwyr yn cadw'r hawl i apelio. Byddai atebolrwydd is presennol meddianwyr yn cynnwys pob defnyddiwr sy'n cael mynediad cyfreithlon i dir CRow.

³ Mae'r cyfeiriad at ddefnyddwyr hawliau uwch yn unol â bwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A oni nodir fel arall.

⁴ Mae testun deddfwriaeth Atodlen 2 ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/schedule/2>

⁵ Mae testun Atodlen 2 ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/schedule/2>

⁶ Mae testun Atodlen 1 ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/schedule/1>

⁷ Mae testun Pennod II ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/part/II/chapter/II>

Byddai'r pwerau i gynyddu pwyntiau mynediad i dir mynediad yn parhau fel y mae yn awr, ond byddai darpariaeth hefyd i ganiatáu gwelliannau i gelfi mynediad gan ddilyn yr egwyddor mynediad lleiaf rhwystrol ('bwlch-giât-camfa'). Byddai'n rhaid i unrhyw gelfi newydd gyflawni'r safonau hygrychedd, er enghraifft Safon Prydain (BS) 5709. Byddai cynllun amaeth-amgylcheddol newydd Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit yn ceisio cynnwys gwelliannau mynediad a seilwaith cefnogol arall ar dir mynediad CRoW yn yr opsiynau.

Byddai cod statudol i ddiffinio hawliau a chyfrifoldebau ar dir mynediad [fel y'i diwygiwyd]. Byddai'r cod newydd yn cyd-fynd â rhaglen addysg a hyrwyddo, yn ogystal â phwerau gorfodi a fyddai gan awdurdodau i sicrhau bod pob un yn cydymffurfio â'r cod.

Byddai symbol Mynediad Agored newydd yn cael ei ddatblygu. Byddai hyn yn adlewyrchu hawliau defnyddwyr, gan bwysleisio hawliau beicwyr a marchogion yn benodol. Gofynnir i'r Arolwg Ordnans ac eraill, er enghraifft Mapiau Harvey, i sicrhau bod eu mapiau yn cydnabod bod hawliau gwahanol CRoW yn berthnasol yng Nghymru. Yn ogystal, byddai'r hawliau gwahanol yn cael eu cyfleu i'r grwpiau perthnasol yng Nghymru a Lloegr.

Elfennau allweddol amgen yn 1A(i)

Mae'r opsiwn yn cynnwys amrywiadau posibl i'r cynigion uchod, sef:

- Gweithredu newidiadau 1A(i) ar dir mynediad arfordirol pan weithredir 1B – fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn yn cynnwys cychod modur.
- Mae unrhyw Ddiwygiad 1B sy'n cynnwys mapio tir mynediad arfordirol yn awtomatig yn cynnwys newidiadau 1A.
- Adolygu a diwygio'r drefn eithriadau a chyfyngiadau a'i chymhwyso i unrhyw dir mynediad arfordirol 1B.
- Bydd y cod mynediad yn parhau i fod yn wirfoddol.
- Byddai cyllid awdurdodau lleol neu gymunedau lleol yn cael ei ystyried i ddarparu gwelliannau i gelfi.
- Byddai atebolrwydd ar dir mynediad CRoW yn lleihau i'r un lefel â'r tir sy'n hygrych o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn Lloegr.⁸
- Cynnwys yn y newidiadau i ddatblygu system cyfeirio gofodol rhwydd.

Sylwebaeth 1A(i) ar faterion sy'n deillio o'r diwygiad, gan ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth
Mae'r prif gynnig – llacio rhannau o Atodlen 2 (elfen 001) – yn ymarferol ac yn opsiwn ar hyn o bryd i'r rhai sy'n cyflwyno tir mynediad. Byddai hyn yn golygu bod pob darn o dir sy'n hygrych yn awr o dan CRoW yn cynrychioli hawl mynediad i farchogion, beicwyr, barcutwyr, paragleidwyr a'r rhai sy'n defnyddio dŵr (y rhai sy'n defnyddio cwch, hwyfwrdd neu'n ymdrochi mewn dŵr di-lanw) (elfen 002). Fodd bynnag, pe byddai bwriad y polisi hwn yn cael ei weithredu, byddai pryder sylweddol ynglŷn â'r effaith ar gadwraeth natur. Gellid lliniaru effeithiau o'r fath drwy'r system eithriadau a chyfyngiadau a nodir ymhellach isod.

⁸ H.y. hefyd yn lleihau atebolrwydd meddianwyr am 'unrhyw nodwedd ffisegol sy'n rhan o'r dirwedd neu fel arall'. <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2009/23/section/306>

Ac eithrio ei gymhwysiad i dir penodedig Adran 15 ac Adran 16 CRow (gweler y ddau baragraff isod), yn ddeddfwriaethol, Opsiwn 1A(i) yw'r opsiwn hawsaf a symlaf. Byddai'n newid clir a hawdd ei ddeall ac yn ffordd o weithredu hawliau uwch ar dir mynediad CRow. Byddai'n golygu y byddai gan 379,699 hectar o dir hawliau uwch, gyda 75,836 hectar pellach pe byddai tir Adran 15⁹ yn cael ei gynnwys. Er nad yw'r costau wedi'u cadarnhau, fel y dull symlaf, mae'n rhesymol tybio mai'r opsiwn hwnnw yw'r un rhataf ar gyfer ymestyn hawliau gyda'r lefel isaf o fiwrocratiaeth.

Ni fyddai'r opsiwn, ar ei ffurf symlaf, yn berthnasol i dir sy'n hygyrch o dan ddeddfwriaethau eraill ('tir Adran 15') er y gellir ystyried bod tir Adran 15 yr un fath â thir mynediad CRow ac mewn rhai lleoedd yn ffinio ag ef. Mae rhai tiroedd Adran 15 eisoes yn caniatáu rhai hawliau uwch, ond i bob hawl gael ei chynnwys mae yna ddau opsiwn:

- Gellid newid deddfwriaeth y Deddfau y cyfeirir atynt yn Adran 15 i ganiatáu hawliau uwch.
- Gellid adolygu Adran 15 CRow i ystyried a ddylid cymhwyso hawliau uwch i dir Adran 15 ac, os felly, sut.

Am nad yw hawliau mynediad tir Adran 15 yn cael eu darparu gan Ddeddf CRow, nid yw trefn eithriadau a chyfyngiadau CRow yn berthnasol i dir Adran 15. Byddai angen cyngor cyfreithiol i gadarnhau'r ffordd orau o weithredu ac a oes angen trefn amgen a sut y gellid ei chymhwyso.

Mae'r holl dir CRow sydd wedi'i gyflwyno yng Nghymru wedi'i gyflwyno gyda hawl mynediad ar droed yn unig. Cyflwynwyd yr holl dir hwn, ac eithrio Freshwater East, y mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn berchen arno, gan y Comisiwn Coedwigaeth ac mae'r tir hwn (onid yw wedi'i werthu) yn cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae yna ragdybiaeth, a fyddai'n galw am gadarnhad ganddynt, na fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, fel cyrff cyhoeddus, yn gwrthwynebu hawliau uwch ar dir wedi'i gyflwyno sydd wedi'i werthu cyn i'r diwygiad ddod i rym. Pan fydd tir yn dir penodedig, mae opsiwn ar gael i lacio cyfyngiadau Atodlen 2 CRow, ond hyd yma nid oes unrhyw ddarn o dir yng Nghymru wedi bod yn destun llacio cyfyngiadau Atodlen 2. Yn ogystal, dangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd mai ychydig iawn o dir yn Lloegr sydd wedi bod yn destun llacio cyfyngiadau Atodlen 2.

Mae tystiolaeth hefyd wedi amlygu Is-ddeddf 648 y Comisiwn Coedwigaeth o ran defnyddio cychod dŵr ar dir y Comisiwn Coedwigaeth (h.y. tir coedwigaeth sy'n cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru). Yn amodol ar gyngor cyfreithiol ynglŷn â sut mae hyn yn berthnasol i dir Cyfoeth Naturiol Cymru, byddai angen diwygio'r is-ddeddf i ganiatáu i unrhyw beth gael ei wneud yn unol â hawl gyfreithiol, gan gynnwys unrhyw hawl a gyflwynwyd fel rhan o Ran 1 Deddf CRow. Yn yr un modd, cyflwynwyd ymholiad ynglŷn â'r hyn sy'n cynrychioli cronfa ddŵr ac ar ba bwynt y gellir ystyried ei bod yn 'naturioledig' ac y gellir ei chynnwys o fewn cwpas y diffiniadau o dir agored i'w mapio fel tir mynediad CRow.

Roedd Opsiwn 1A(i) yn cynnwys elfen amgen (001/amgen) a oedd yn cynnig ymestyn yr opsiwn i dir mynediad arfordirol o ganlyniad i Ddiwygiad 1B. Fodd bynnag, ni ellir

⁹ Er enghraifft, mae tir Adran 15 yn cynnwys 'tiroedd comin trefol/metropolitaidd'. Gweler: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/section/15>

ystyried hyn nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar y bwriad i gynnwys hawliau uwch fel rhan o Ddiwygiad 1B. Roedd elfen arall o 001/amgen yn cynnig cynnwys cychod modur yn yr hawliau newydd, a'r ymateb diamwys i'r cais am dystiolaeth oedd na ddylid cynnwys cychod modur yn y diwygiad.

Roedd yr elfen amgen, 002/amgen, yn cynnig mapio'r arfordir – er enghraifft, drwy weithredu Adran 3 o'r Ddeddf CROW. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Niwygiad 1B ac felly dylid hepgor yr elfen hon o'r opsiwn hwn.

Mae Pennod II, Rhan I CROW (eithriadau a chyfyngiadau mynediad) yn berthnasol i unrhyw dir y ceir mynediad iddo o dan Adran 2(1). Golyga hyn y gallai eithriadau a chyfyngiadau CROW fod yn berthnasol i unrhyw hawliau uwch ychwanegol. Gellir nodi amodau, a welir yn Adran 21(3)(d),¹⁰ felly gellid eithrio gwahanol fathau o ddefnyddwyr heb ddeddfwriaeth bellach. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bod gofyniad i ddarparu rhesymau pellach dros geisiadau neu hysbysiadau mewn perthynas ag eithriadau a chyfyngiadau. Roedd elfen 003/amgen yn ymwneud â diwygio eithriadau a chyfyngiadau ar gyfer mynediad arfordirol. Oherwydd bod mynediad arfordirol yn cael ei gynnwys o dan Ddiwygiad 1B, dylid ei hepgor o'r opsiwn.

Byddai Pennod III, Rhan I CROW (dull mynediad) hefyd yn berthnasol i unrhyw weithgareddau diwygiedig Atodlen 2 (elfen opsiwn 003). Gellid diwygio Pennod III i sicrhau bod yr holl welliannau'n cydymffurfio â BS 5709 neu ganllawiau tebyg ar gyfer y mynediad lleiaf rhwystrol (gweler elfen 006) ac y gellid parhau â hyn p'un a fyddai'r opsiwn yn cael ei ddatblygu ai peidio. Ystyrir bod opsiynau cyllido (elfennau 006/amgen a 008) yn angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r diwygiadau deddfwriaethol yn ymarferol.

Cynigiwyd cod mynediad (elfennau 004 a 004/amgen). Fodd bynnag, er y cafwyd cefnogaeth gyffredinol, cafwyd safbwyntiau cyferbyniol ar a ddylai'r cod fod yn statudol (gyda chosbau posibl) neu'n anstatudol (cyngori yn unig), gyda'r adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen ar gyfer gorfodi cod statudol yn cael eu nodi fel problem. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd yn awr o dan Adran 20 o Ddeddf CROW i gynhyrchu cod cynghorol (heb gosbau) ar gyfer pob math o fynediad o dan Adran 2(1). Codwyd diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â gweithgareddau hamdden cyfrifol fel problem. Felly, byddai angen addysg/gwybodaeth (elfen 005) ond mae hyn yn golygu goblygiadau o ran adnoddau a byddai'n ychwanegol at y diwygiadau statudol. Yn yr un modd, er y byddai symbolau mynediad newydd (elfen 007) ac addysg/cyfathrebu (010) yn fuddiol iawn, maent yn faterion sy'n ymwneud â chyflawni diwygiadau deddfwriaethol a fyddai'n galw am adnoddau ychwanegol i'w gweithredu.

Cafwyd cynnig yn yr opsiwn i ddatblygu system gyfeirio geo-ofodol (elfen 011/amgen). Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos nad oes angen yr elfen hon oherwydd mae systemau ar gael eisoes, e.e. mae system grid yr Arolwg Ordians, What 3 Words, Lleoliad Symudol Uwch yr Heddlu, Mountain Rescue Phone Find a SARCALL i gyd yn gallu geo-leoli ffonau symudol.

Roedd elfen 009 yn cynnig cynnwys 'ffenestr' ychwanegol ar gyfer apelio yn erbyn mapio tir fel tir agored neu dir comin CROW. Er y cafwyd rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer hyn, mae mapiau CROW yn amodol ar y ffaith bod tir yn 'dir agored' neu'n dir comin, nid y math o hawliau sy'n berthnasol iddo. Felly, byddai'r elfen yn ailagor system

¹⁰ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/section/21>

gynrychiolaeth mapiau CRoW, gan arwain at fapiau drafft, dros dro a phendant a fyddai, i bob pwrpas, yn gweithredu fel adolygiad degawdol cynnar. Nid oedd adolygu'r mapiau CRoW yn rhan o fwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer 1A.

Byddai llacio Atodlen 2 yn cynnal y gostyngiad yn atebolrwydd meddianwyr i'r rhai sy'n defnyddio'r tir yn gyfreithlon (elfen 011) – cafwyd cefnogaeth gyffredinol i hyn. Gallai'r diwygiad leihau atebolrwydd ymhellach, er enghraifft i'r lefel a ddarperir ar dir mynediad arfordirol yn Lloegr gan Adran 306 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordirol 2009 [Lloegr]¹¹ a/neu drwy leihau atebolrwydd y sawl sy'n cadw anifeiliaid, er enghraifft drwy ddiwygiad i Adran 13 CRoW (elfen 011/amgen).

OPSIYNAU DIWYGIAD 1A(ii)

Teitl: Hawliau uwch yn amodol ar asesiad o alw/addasrwydd

1A(ii) Disgrifiad:

Cymhwyso hawliau uwch yn ddetholus i ardaloedd diffiniedig o dir CRoW, yn seiliedig ar asesiad o addasrwydd.¹²

Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig yn Opsiwn 1A(ii)

Mae Opsiwn 1A(ii) yn darparu ar gyfer deddfwriaeth i ganiatáu i farchogion a beicwyr gael hawl mynediad o dan CRoW i rai ardaloedd o dir mynediad. Gwneir hynny drwy addasu Atodlen 2 CRoW (e.e. paragraff 7(1) Atodlen 2, sy'n ei gwneud yn ofynnol yn awr i dirfeddiannwr gydsynio i lacio cyfyngiadau cyffredinol) er mwyn i'r cyfyngiadau cyffredinol perthnasol gael eu llacio ar ardaloedd penodol o dir mynediad CRoW sydd wedi bod yn destun asesiad o addasrwydd y tir. Yr awdurdodau mynediad fyddai'n meddu ar y pwerau i lacio cyfyngiadau Atodlen 2.¹³ Byddai'r pwerau'n cael eu diffinio ymhellach yn rheoliadau Llywodraeth Cymru, a fyddai'n nodi'r meini prawf asesu addasrwydd (gan gynnwys angen / galw am fynediad), y broses asesu, a sut y dylid ei chymhwyso. Byddai addasrwydd pob safle tir mynediad CRoW yn cael ei asesu a byddai'r awdurdod mynediad yn gwneud penderfyniad ar sail achosion unigol; byddai'r broses yn cynnwys ymgynghoriadau.

Mae'r gyfres bresennol o eithriadau a chyfyngiadau CRoW yn berthnasol i hawliau uwch, felly gellid eu cymhwyso i ardaloedd o'r fath. Byddai'n bosibl i'r awdurdod mynediad roi cymorth i berchnogion a meddianwyr ar y defnydd o eithriadau a chyfyngiadau, pe byddent yn cael eu hystyried oherwydd hawliau mynediad uwch ar eu tir. Byddai'r awdurdod mynediad yn cynnal pŵer dewisol i wella'r dull o gael mynediad i dir mynediad er mwyn i farchogion a beicwyr ddefnyddio'r ardaloedd gyda hawliau uwch.

¹¹ Gweler y cyfeiriad at atebolrwydd is i feddianwyr a gyflwynwyd gan y Ddeddf hon yn gynharach yn y sylwebaeth ar 1A(i) uchod.

¹² Gweler tudalen 3, 'Crynodeb o fwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A', ar gyfer gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys o fewn 'hawliau uwch'.

¹³ Yr awdurdod mynediad yw Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer tir mynediad mewn Parc Cenedlaethol; ar gyfer tir mynediad y tu allan i Barc Cenedlaethol, yr awdurdod priffyrdd lleol ar gyfer yr ardal [mae'r awdurdod priffyrdd lleol yn un o swyddogaethau awdurdodau unedol yng Nghymru].

Byddai ardaloedd â hawliau uwch yn cael eu dangos ar fapiau ar-lein Cyfoeth Naturiol Cymru o dir mynediad CRoW. Hefyd, byddai pwerau i awdurdodau mynediad osod arwyddion sy'n gysylltiedig â hawliau uwch, e.e. disgiau cyfeirbwyntiau, arwyddion pwyntiau mynediad ac arwyddion cyfeiriadol, pe byddai angen.

Ar ôl i ardaloedd gael eu nodi fel ardaloedd hygyrch i feicwyr neu farchogion, byddai'r ardaloedd hefyd yn caniatáu mynediad i gychod, ymdrochi/nofio a barcuta/paragleidio. Fodd bynnag, ni fyddai'r gweithgareddau hyn yn ffurfio rhan o'r broses asesu.

Gellid cynnal atebolrwydd meddianwyr i ddefnyddwyr cyfreithiol fel y mae ar gyfer tir presennol CRoW neu gellid ei leihau yn unol â'r hyn a gyflwynwyd gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn Lloegr (gweler y cyfeiriad uchod). Gellid ystyried lleihau atebolrwydd hefyd i'r rhai sy'n arfer eu hawliau CRoW gan geidwad anifeiliaid.

Elfennau allweddol amgen yn 1A(ii)

Roedd opsiwn 1A(ii) yn cynnwys amrywiadau posibl (elfennau amgen) i'r pwyntiau uchod, sef:

- Ei gwneud yn ddyletswydd (yn hytrach na phŵer) i awdurdodau mynediad asesu tir mynediad CRoW, naill ai unwaith neu ar sail adolygiadau treigl.
- Awdurdod perthnasol CRoW,¹⁴ yn hytrach na'r awdurdod mynediad, fyddai'n cynnal yr asesiad. Byddai'r fforymau mynediad lleol a Croeso Cymru yn darparu cyngor i'r awdurdod perthnasol.
- Pwerau ar gyfer eithriadau a chyfyngiadau CRoW i'w gweithredu er mwyn iddynt fod mewn grym cyn gynted ag y bydd yr hawliau uwch yn weithredol.
- Dylid alinio'r gofynion ar gyfer mapio gyda 3A, yn ogystal â defnyddio dull detholus er mwyn cynyddu hawliau mynediad – h.y. dim ond marchogion neu ddim ond beicwyr fydd yn cael mynediad i rai ardaloedd.
- Byddai hawl mynediad ond yn cynyddu pan fyddai galw profedig a dull o gael mynediad yn ôl ac ymlaen o'r tir, ac y byddai'r drefn eithriadau a chyfyngiadau yn cael ei hadolygu.

1A(ii) Sylwebaeth ar faterion diwygio, gan ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth

Mae'n bosibl cyflawni Opsiwn 1A(ii), sef darparu pwerau dewisol i awdurdodau mynediad asesu tir mynediad CRoW ar gyfer cymhwyso hawliau mynediad uwch. Fodd bynnag, mae angen cyngor cyfreithiol ynghylch yr angen i ddarparu iawndal i berchnogion tir mynediad pan fydd hawliau uwch yn cael eu dynodi ar sail detholus. Gallai geiriad deddfwriaeth sicrhau y byddai'n bŵer dewisol i awdurdodau mynediad asesu tir mynediad ar gyfer hawliau uwch ac adolygu hynny'n rheolaidd (elfen 001), neu fel dyletswydd i asesu ac adolygu'n rheolaidd (elfen 001/amgen). Gallai'r opsiwn ddarparu pŵer hefyd heb ofyniad i adolygu (elfen 003 a 004) neu ddyletswydd heb ofyniad i adolygu (elfen 003/amgen ac elfen 004/amgen).

Codwyd pryderon â thystiolaeth ynglŷn ag effeithiau ymestyn hawliau uwch ar dir CRoW ar gadwraeth natur a threftadaeth. Roedd y dystiolaeth yn ymwneud yn bennaf ag effeithiau beicio neu farchogaeth mewn lleoliadau penodol neu rannau o lwybrau yn hytrach nac effaith ar ardaloedd helaeth, e.e. oherwydd dwyster y defnydd neu

¹⁴ Yr awdurdod perthnasol yw Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer tir mynediad mewn Parc Cenedlaethol; Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod perthnasol ar gyfer tir mynediad y tu allan i Barciau Cenedlaethol.

sensitifrwydd cynefin y mae'r mynediad arno. Byddai system eithriadau a chyfyngiadau CROW (manylion pellach isod) a rheoli mynediad yn darparu dull o atal neu liniaru effeithiau o'r fath, er na fyddent yn diddymu'r effeithiau ychwanegol yn llwyr.

Codwyd pryderon pe byddai'r broses asesu arfaethedig yn cynnwys asesu'r 'galw' am fynediad (gweler elfen 0011/amgen), yn benodol yr anhawster o fesur galw yn wrthrychol a'r problemau cynhenid o sut i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath ynghylch 'galw' wrth wneud penderfyniadau, e.e. yn sgil pryderon ynghylch effeithiau negyddol ar gadwraeth natur a threftadaeth.

Roedd pryderon ynghylch y gofynion ychwanegol o ran adnoddau ar awdurdodau lleol pe byddai dyletswydd yn hytrach na phŵer i asesu tir mynediad – a'r goblygiadau o ran adnoddau i'r awdurdodau. Pwysleisiodd nifer o'r awdurdodau lleol a ymatebodd hefyd broblem o gyflwyno'r broses asesu fel pŵer oherwydd byddai awdurdodau'n blaenoriaethu gwahanol ardaloedd o dir mynediad ar gyfer asesu a gweithredu hawliau ac yn gweithio i amserlenni gwahanol. Ystyriwyd y byddai hyn yn achosi gwahaniaethau sylweddol i weithrediad hawliau uwch ar hyd a lled Cymru ac y byddai hyn yn amlwg iawn ar ffiniau'r awdurdodau lleol.

Mae Opsiwn 1A(ii) yn cynnig rheoliadau newydd Deddf CROW sy'n amlinellu meini prawf asesu/'addasrwydd' (elfen 002, 005 a 014) a rhywfaint o waith mapio i ddiffinio'r ardaloedd a fyddai'n cael eu hystyried. Byddai angen darpariaeth hefyd ar gyfer ymgynghoriadau, gyda'r potensial ar gyfer sylwadau (i ychwanegu neu hepgor tir) ac apeliadau ynglŷn â phenderfyniadau. Byddai gofynion o'r fath yn achosi goblygiadau newydd sylweddol o ran adnoddau i awdurdodau mynediad a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r opsiwn yn ystyried dau ddewis amgen ar gyfer cyflwyno hawliau uwch i ardaloedd o dir sydd wedi'u hasesu: naill ai mesurau llacio llwyr o Atodlen 2 (elfen 010) neu fesurau llacio detholus (elfen 010/amgen). Mae'r ail opsiwn o'r ddau yn golygu, er enghraifft, y gallai beicwyr ond nid marchogion gael mynediad i ardal o dir. Roedd yr ymatebion yn pwysleisio bod elfen 010 yn cynnal cysondeb a'i bod yn haws ei deall, a bod 010/amgen yn golygu y byddai mwy o gwmpas i deilwra mynediad i amgylchiadau lleol.

Opsiwn amgen i'r broses sy'n cael ei harwain gan yr awdurdod mynediad yw i'r awdurdod perthnasol (Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) i ardal gael dyletswydd neu bŵer i fod yn gyfrifol am y broses (elfen 005/amgen). Oherwydd bod gan awdurdodau lleol lai o adnoddau ar hyn o bryd, yr opsiwn hwn oedd yr un a ffafriwyd gan nifer o'r awdurdodau mynediad a ymatebodd; fodd bynnag, byddai hyn ond yn symud y baich o un maes yn y sector cyhoeddus i un arall.

Mae trefn eithriadau a chyfyngiadau CROW yn cwmpasu holl ddefnyddwyr cyfreithiol tir mynediad CROW. Byddai'n bosibl gweithredu eithriad/cyfyngiad pan fyddai problem yn codi (elfen 006) neu fel mesur ataliol (elfen 006/amgen). Bu i Natural England weithredu cyfyngiadau cadwraeth hirdymor ar unwaith ar rai ardaloedd o dir ar y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yr oedd yn berchen arnynt a thir penodedig. Er gwaethaf hyn, mae angen cymryd gofal i sicrhau bod yr eithriadau a chyfyngiadau lleiaf rhwystrol yn cael eu gweithredu. Nid oes angen unrhyw newid deddfwriaethol ar gyfer yr elfennau hyn oherwydd mae'r ddeddfwriaeth eisoes yn berthnasol yn ôl yr angen. Hefyd, edrychwyd ar y drefn eithrio a chyfyngu bresennol (elfen 012) i weld a oedd angen ei diwygio (elfen 012/amgen), ond ni chyflwynwyd tystiolaeth i ddangos bod angen unrhyw newidiadau

(codwyd cytundebau mynediad lleol ar gyfer gweithredwyr masnachol, ond mae defnydd masnachol y tu hwnt i gwmpas hawliau CRoW eisoes).

Mae adnoddau ar gyfer rheoli tir, gweithrediadau, wardeiniaid a monitro yn cael eu hystyried gan elfen 007. Er y gost sylweddol, byddai darparu adnoddau yn fater cyflenwi yn hytrach na newid deddfwriaethol. Mae elfen 007 hefyd yn cynnwys pwerau i hwyluso croesi terfynau caeau presennol. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, mae angen cyngor cyfreithiol i benderfynu a yw adrannau 34-38 Pennod III, Rhan I CRoW (dull mynediad) yn darparu'r pwerau sydd eu hangen ar awdurdodau mynediad neu a oes angen diwygio'r deddfwriaeth.

Mae 007/amgen yn ystyried bod dull detholus yr opsiwn hwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth, felly mae angen cyngor cyfreithiol i gadarnhau hynny (yn yr un modd ag Opsiwn 1A(iii)).

Ceir cytundeb cyffredinol ynghylch darparu mapiau mynediad CRoW ar-lein a'u halinio â Diwygiad 3A (elfennau 008 a 008/amgen). Er bod ffigurau gwylio tudalennau wedi bod yn isel erioed, mae Rheoliadau CRoW yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos y mapiau ar-lein, lle bo hynny'n ymarferol rhesymol, felly nid oes angen ystyried yr elfen hon ymhellach oherwydd ei bod eisoes yn ofynnol a gellir ei chynnwys yn rhwydd gyda Diwygiad 3A.

Codwyd disgiau cyfeirbwyntiau, arwyddion pwyntiau mynediad ac arwyddion cyfeiriadol (elfen 009). Er y byddai symbol newydd o fynediad yn fater sy'n ymwneud â gweithredu'r diwygiad, mae Adran 19 CRoW yn rhoi'r pwerau i awdurdodau mynediad osod arwyddion.

Roedd elfen 013 yn edrych ar hwyluso mynediad i dir mynediad CRoW ac oddi fewn iddo. Darperir ar gyfer hwyluso mynediad i dir eisoes; byddai angen edrych ar fynediad o fewn tir (h.y. croesi terfynau a nodweddion eraill o fewn tir mynediad CRoW), ac yn arbennig mewn cysylltiad ag ardaloedd mawr o dir mynediad, er mwyn atal difrod wedi'i achosi gan ddefnyddwyr hawliau uwch yn croesi o un ardal i ardal arall.

Bydd llacio Atodlen 2 yn lleihau atebolrwydd y rhai sydd eisoes yn defnyddio'r tir yn gyfreithlon (elfen 015). Er mwyn llacio ymhellach, yn unol â'r tir sy'n hygyrch o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir neu i gynnwys anafiadau gan dda byw, byddai angen diwygio Adran 13.

[O.N. Y rhagdybiaeth yw bod 'tir CRoW' yn cynnwys tir a gyflwynir o dan Adran 16. Gweler 1A(i) am wybodaeth bellach am y rhagdybiaeth hon.]

OPSIYNAU DIWYGIAD 1A(iii)

Teitl: Hawliau uwch ar lwybrau diffiniedig CRoW (dull coridor)

Disgrifiad 1A(iii):

Llwybr/coridor llinellol drwy dir CRoW lle mae cyfyngiadau Atodlen 2 yn cael eu codi ar gyfer gweithgareddau datganedig.

Crynodeb o'r diwygiadau arfaethedig yn Opsiwn 1A(iii)

Mae Opsiwn 1A(iii) yn cynnig deddfwriaeth i ganiatáu i farchogion a beicwyr gael hawl mynediad o dan CRoW i lwybrau/coridorau llinellol diffiniedig o fewn tir mynediad presennol CRoW. Byddai rheoliadau Llywodraeth Cymru'n nodi'r broses ar gyfer diffinio coridorau.

Yn dilyn ymgynghoriad, byddai gan awdurdodau mynediad y pŵer i ddiffinio, penderfynu a gweithredu'r coridorau hyn. Byddai'r meini prawf a ddefnyddir yn cynnwys galw / angen am fynediad, nodweddion llwybrau (e.e. lled y coridor), nodweddion y dirwedd, ac effaith y mynediad ar gadwraeth natur neu dreftadaeth.

Byddai Pennod III, Rhan I CRow (dull mynediad – Adrannau 34-38)¹⁵ yn cael ei diwygio i hwyluso, lle byddai angen, mynediad i dir ac o fewn tir mynediad ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch a'r rhai sydd angen cymorth symudedd.

Bydd Rhan I, Pennod II (eithrio neu gyfyngu mynediad – Adrannau 21-33)¹⁶ yn cael ei hadolygu i sicrhau y gellir cyfyngu'r llwybrau yn ôl gweithgarwch. Bydd egwyddor o deithio ymlaen gydag amrywiad o'r llwybr / darparu llwybr amgen yn cael ei ganiatáu. Fodd bynnag, byddai'r egwyddor mynediad lleiaf rhwystrol a ddefnyddir ar gyfer eithriadau a chyfyngiadau yn parhau i gael ei chymhwyso i'r amrywiad o'r llwybr.

Byddai cod statudol ar gyfer mynediad i'r coridor gydag ystod o gosbau posibl i'r rhai sy'n ei dorri. Hefyd, byddai adnoddau addysg a gwybodaeth gysylltiedig er mwyn codi ymwybyddiaeth am y mynediad newydd gyda'r rhai â gwahanol fuddiannau.

Elfennau allweddol amgen yn 1A(iii)

Roedd elfennau allweddol Opsiwn 1A(iii) yn cynnwys amrywiadau posibl i'r pwyntiau uchod, sef:

- Cymhwyso llwybrau coridor ar draws tir y rhoddir mynediad iddo o dan Ddiwygiad 1B.
- Ei gwneud yn ddyletswydd (yn hytrach na phŵer) i awdurdodau mynediad asesu tir mynediad CRow ar gyfer llwybrau coridor.
- Ystyried defnyddio'r broses diffinio llwybrau a ddefnyddir ar gyfer Llwybr Arfordir Lloegr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (ond nid y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer y Llwybr Cenedlaethol).
- Y disgrisiwn i eithrio rhai dosbarthiadau o ddefnyddwyr, er enghraifft y rhai sy'n defnyddio e-feiciau.
- Cynnal (yn hytrach nac adolygu/diwygio) Rhan 1, Pennod III – ar yr amod ei bod yn addas i'r diben.
- Sefydlu cod mynediad statudol sy'n cwmpasu pob math o fynediad statudol, yn hytrach na chod yn benodol ar gyfer mynediad at goridorau Opsiwn 1A(iii).

1A(iii) Sylwebaeth ar faterion diwygio, gan ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth

Y prif gynnig yw bod gan awdurdodau mynediad y pŵer i ddiffinio llwybrau/coridorau llinellol ar dir mynediad CRow lle byddai Atodlen 2 yn cael ei llacio er mwyn i farchogion a beicwyr eu defnyddio (elfen 001 a 002). Er bod yr elfen yn datgan 'hawliau uwch', cafodd hyn ond ei gynnig a'i drafod gan y grŵp arbenigol fel opsiwn ar gyfer marchogion a beicwyr. (Mae hyn yn wahanol i fwiad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygiad 1A.) Gallai'r llwybr/coridorau llinellol fod ar lwybrau anffurfiol presennol, neu ar dir lle nad oes llwybr amlwg ar y pwynt lle mae'r hawliau'n cael eu llacio. Un awgrym a wnaed gan y grŵp arbenigol oedd y posibilrwydd o ddatblygu'r opsiwn drwy ddiwygio

¹⁵ Gweler testun y ddeddfwriaeth yma:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/part/II/chapter/III>

¹⁶ Gweler testun y ddeddfwriaeth yma:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/part/II/chapter/II>

paragraff 7(1) Atodlen 2, sydd ar hyn o bryd yn galw am gydsyniad y tîrffediannwr i lacio cyfyngiadau cyffredinol.¹⁷

Fel y nodwyd ar gyfer opsiynau 1A(i) ac 1A(ii), cyflwynwyd tystiolaeth am effaith bosibl cyflwyno hawliau uwch ar gadwraeth natur a threftadaeth. Gellir mynd i'r afael â'r effeithiau ar safle neu lwybr penodol drwy system eithriadau a chyfyngiadau presennol CRoW, a nodir isod, a hefyd rheoli mynediad, er na fyddai hyn bob amser yn datrys effeithiau.

Codwyd pryderon â thystiolaeth o ran ai diwygio CRoW oedd yr opsiwn gorau ar gyfer creu llwybrau detholus gyda hawl mynediad sydd bron yn union yr un peth â llwybrau ceffylau ac a fyddai angen gofyniad iawndal fel sy'n bodoli yn achos creu hawl dramwy gyhoeddus.

Roedd y dystiolaeth o safbwyntiau yn codi pryderon ynglŷn â goblygiadau adnoddau gweithredu'r mathau o bwerau a geir yn Opsiwn 1A(iii) o ystyried y pwysau presennol ar y gyllideb. Ystyriwyd mai defnydd prin y byddai'r awdurdodau mynediad yn ei wneud o'r pwerau heb adnoddau ychwanegol, er nad oedd amcangyfrif o'r costau gweithredu wedi'i greu. Pe byddai'r opsiwn yn cael ei weithredu, byddai'r cynnig a'r asesiad yn cael eu cwmpasu gan reoliadau Llywodraeth Cymru (a allai gynnwys gwerthusiad o alw/angen, dimensiynau manwl lled y llwybr, atebolrwydd llai, a dulliau o gael mynediad i / ar draws tir).

Mae gan elfen 002/amgen bedwar cynnig. Mae'n cynnig cymhwyso Opsiwn 1A(iii) hefyd i'r arfordir, ond byddai ond yn bosibl ystyried hyn ar ôl penderfynu a ddylai Diwygiad 1B olygu bod tir arfordirol yn hygyrch i hawliau uwch o dan CRoW. Hefyd, mae'n awgrymu y gellid defnyddio diffiniad Llwybr Arfordir Lloegr o lwybrau, ar gyfer darparu hawliau uwch. Fodd bynnag, roedd nifer o'r farn nad yw'r dull yn ymarferol. Mae 002/amgen hefyd yn cynnig gwahardd rhai dosbarthiadau o ddefnyddwyr o goridorau dynodedig, er enghraifft e-feiciau, ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bod e-feiciau yn eu hanfod yn fwy niweidiol, maent yn anodd eu hadnabod, ac roedd cyngor cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru¹⁸ yn datgan y gallai mesur o'r fath gael ei ystyried fel mesur gwahaniaethol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Yn wahanol i opsiynau 1A(i) ac 1A(ii), byddai'n rhaid gwneud newidiadau deddfwriaethol mawr i'r drefn eithriadau a chyfyngiadau (elfen 003) yn sgil yr opsiwn hwn. Er bod deddfwriaeth eithriadau a chyfyngiadau yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r opsiwn, gallai darparu coridor amgen dros dro o fewn amserlenni statudol olygu nad yw'n bosibl cynnal asesiad cymaradwy â'r asesiad gwreiddiol a gynhaliwyd – mae hyn yn golygu y gellid herio ei gyfreithlondeb. Fel isafswm, byddai angen i unrhyw goridor amgen dros dro fod ar dir mynediad CRoW, hawliau tramwy cyhoeddus (sy'n caniatáu hawliau uwch) a/neu ffyrdd (ffyrdd fyddai'r opsiwn a ffafrir leiaf). Byddai angen i'r diwygiad ystyried senarios hefyd lle byddai'r llwybr/coridor amgen a ffafrir wedi'i leoli ar dir mewn perchnogaeth wahanol.

Mae astudiaethau wedi dangos tystiolaeth o ddifrod i lwybrau llinellol sydd wedi'u hachosi gan feiciau mynydd. Er bod yr astudiaethau hyn yn dangos mai'r prif fater yw'r

¹⁷ Mae testun y ddeddfwriaeth ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/37/schedule/2>

¹⁸ Cyngor cyfreithiol i Cyfoeth Naturiol Cymru, Medi 2020.

canfyddiad o ddinistr, mae'r gweithgarwch yn achosi rhai effeithiau niweidiol, ac felly mae posibilrwydd y byddai'r coridorau yn cael eu cau am resymau iechyd a diogelwch, rheoli tir neu gadwraeth.

Er bod deddfwriaeth CROW yn caniatáu hwyluso dull mynediad i dir mynediad (Rhan I, Pennod III), nid oes hawl i groesi terfynau tir presennol i dir ac o fewn tir mynediad CROW oni bai bod giât heb ei chloi neu gamfa. Mae'n debygol y byddai angen darparu neu wella seilwaith mynediad i feicwyr a marchogion pan fydd coridor yn croesi terfyn mewnol neu nodwedd debyg. Gallai hyn fod ar gyfer pwynt croesi presennol, pwynt mynediad wedi'i negodi, neu bwynt mynediad wedi'i orfodi. Byddai angen i Ran I, Pennod III Deddf CROW ddarparu pwerau i awdurdodau mynediad ar gyfer gwaith o'r fath (gweler elfen 004 a 004/amgen).

Hefyd, mae cynnig (elfen 004 a 004/amgen) ar gyfer darparu canllawiau ar fynediad lleiaf rhwystrol. Mae Rhan I, Pennod III yn cyflwyno'r sefyllfa gyfreithiol ar gael mynediad i dir mynediad ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn darparu canllawiau ar fynediad drwy ein cyhoeddiad 'Trwy bob dull rhesymol'.¹⁹ Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth nad yw hyn eisoes yn cael ei gyflawni drwy gyhoeddiadau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Adran 20 Deddf CROW yn rhoi dyletswydd i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cod ymddygiad er arweiniad i bersonau ynglŷn â hawliau mynediad o dan Ddeddf CROW a hawliau tramwy cyhoeddus ar dir mynediad a chadwraeth natur mewn perthynas ag ef. Mae'r Cod Cefn Gwlad, sy'n cynnwys canllawiau ynglŷn â mynediad o dan Ddeddf CROW, yn darparu'r wybodaeth traws-fynediad hon (elfen 005/amgen). Pe byddai cod statudol newydd yn cael ei ddarparu ar gyfer pob mynediad statudol (gyda neu heb gostau cysylltiedig), yn ogystal â gofynion newydd i hybu'r cod (gweler elfen 005), yna byddai angen diwygio CROW. Er na fyddai mesurau hyrwyddo ac addysg yn galw am newid deddfwriaethol, byddai angen adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn – a fyddai'n gymesur i'r mesurau hyrwyddo a gynhelir.

O.N. Y rhagdybiaeth yw bod 'tir CROW' yn cynnwys tir penodedig o dan Adran 16. Gweler 1A(i) am ragor o wybodaeth am y rhagdybiaeth hon.

Meini prawf asesu

Mae rhaglen y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad yn nodi nifer o feini prawf y gellir asesu'r cynigion diwygio yn eu herbyn. Defnyddiwyd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymatebwyr allanol i ddatblygu'r tabl canlynol o feini prawf asesu sy'n ystyried pob un o'r opsiynau (gweler y tabl isod).

¹⁹ <https://cdn.naturalresources.wales/media/684056/nc004-trwy-bob-dull-rhesymol-mynediad-lleiaf-rhwystrol-ir-awyr-agored.pdf>

| Meini prawf: | Disgrifiad o'r meini prawf a mesurau | Opsiwn 1A(i) – Cyfyngiadau diwygiedig Atodlen 2 CRoW | Opsiwn 1A(ii) – Cymhwyso hawliau uwch yn amodol ar asesiad o alw/addasrwydd | Opsiwn 1A(iii) – Hawliau uwch ar lwybrau diffiniedig CRoW (dull coridor) |
|--------------------|--|--|---|---|
| Graddau'r mynediad | <p>Y swm o fynediad 'drwy hawl' yr effeithir arno:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyfansymiau [e.e. cilometrau/hectarau; %] Newidiadau canran Dosbarthiad: lle a sut maent wedi'u dosbarthu yng Nghymru Mesurau yn cynnwys symiau absoliwt a/neu gymharol, e.e. newid o'r sefyllfa bresennol; yn gymharol ag opsiynau eraill | <p>Byddai gan holl dir CRoW hawliau mynediad uwch ar gyfer mynediad marchogol/beicwyr. Nid yw tir Adran 15 CRoW yn hygyrch o dan CRoW a dim ond hawl mynediad tybiedig sydd ar gyfer marchogion, felly nid yw'n glir beth yw'r sefyllfa o ran hyn, yn arbennig oherwydd gallai gael ei gwmpasu gan ddsbarthiad tir agored pe na fyddai'n dir Adran 15.</p> <p>Yr ystadegau presennol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> Tir agored – 162,343 hectar Tir comin – 118,098 hectar Tir penodedig – 99,258 hectar Tir Adran 15 – 75,386 hectar <p>Byddai holl dir CRoW yn hygyrch i farcutwyr/paragleidwyr. Mae ystadegau cyrff dŵr wedi'u nodi isod, ond nid ydynt yn ystyried mesuriadau megis dyfnder ac yn y blaen, felly mae'n bosibl nad ydynt yn ymarferol ar gyfer nofio, canŵio a gweithgareddau dŵr eraill.</p> <p>Graddau'r effaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> O leiaf 613.9 cilometr o afonydd ar dir CRoW O leiaf 5,388.11 hectar o lynnoedd/cyrff dŵr naturiol ar dir CRoW | <p>Dim ond ardaloedd diffiniedig fyddai â hawliau uwch ar gyfer mynediad i farchogion/beicwyr. Hyd nes y bydd y meini prawf wedi'u diffinio, mae'n amhosibl dweud faint o fynediad fel hawl y bydd hyn yn ei greu.</p> <p>Mae mynediad tybiedig ar gyfer chwaraeon awyr / i ddŵr yn unol â chynnig 1A(i).</p> | <p>Dim ond coridorau diffiniedig fyddai â hawliau uwch ar gyfer mynediad i farchogion/beicwyr. Hyd nes y bydd y meini prawf wedi'u diffinio, mae'n amhosibl dweud faint o fynediad fel hawl y bydd hyn yn ei greu.</p> <p>Mae mynediad tybiedig ar gyfer chwaraeon awyr / i ddŵr yn unol â chynnig 1A(i).</p> |
| Ansawdd mynediad | <p>Hygyrchedd i ddefnyddwyr yn nhermau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflwr ffisegol Defnyddioldeb [ymarferoldeb y mynediad a ddarparwyd gan y diwygiadau i hawliau] Argaeledd i wahanol ddefnyddwyr Agosrwydd at boblogaeth [sydd hefyd yn fater cydraddoldeb] Presenoldeb rhwystrau at ddefnydd hawliau uwch a phobl â phroblemau symudedd Argaeledd yn nhermau gwybodaeth, gan gynnwys presenoldeb ar y | <p>Byddai mynediad yn berthnasol i holl dir mynediad CRoW (a thir Adran 15 fwy na thebyg):</p> <ol style="list-style-type: none"> CYFLWR FFISEGOL – Dim gofyniad i wella tir ar gyfer mynediad ond gallai fod yn bresennol – e.e. llwybrau coedwigoedd. DEFNYDDIOLDEB – Mae gan awdurdodau mynediad y pŵer i gynorthwyo i gael mynediad i dir mynediad, ond mae yna safleoedd lle na chaniateir unrhyw fynediad. ARGAELEDD – Mae unrhyw dir nad yw'n ddarostyngedig i eithriad neu gyfyngiad ar gael 24/7 i ddefnyddwyr, ond mae yna is-ddeddf y Comisiwn Coedwigaeth sy'n atal y rhai sy'n cario ceufad rhag croesi ei ystad. | <p>Byddai mynediad yn berthnasol i holl dir mynediad CRoW (a thir Adran 15 fwy na thebyg):</p> <ol style="list-style-type: none"> CYFLWR FFISEGOL – Dim gofyniad i wella tir ar gyfer mynediad ond gallai fod yn bresennol – e.e. llwybrau coedwigoedd. DEFNYDDIOLDEB – Byddai disgwyl i feini prawf ar gyfer ardal addas gynnwys bod yr ardal yn ddefnyddiadwy/hygyrch ac osgoi rhai mathau o dir (e.e. gorgors). ARGAELEDD – Mae unrhyw dir nad yw'n ddarostyngedig i eithriad neu gyfyngiad ar gael 24/7 i ddefnyddwyr sy'n cael mynd ar y darn hwnnw o dir, ond mae yna is-ddeddf y Comisiwn Coedwigaeth sy'n | <p>Byddai mynediad yn berthnasol i holl dir mynediad CRoW (a thir Adran 15 fwy na thebyg):</p> <ol style="list-style-type: none"> CYFLWR FFISEGOL – Posibilrwydd i goridorau fod ar arwynebeddau sydd wedi'u gwella ond nad ydynt yn hawliau tramwy cyhoeddus – e.e. llwybrau coedwig. DEFNYDDIOLDEB – Gallai fod yn broblem os na ellir defnyddio coridorau oherwydd lefel uchel o ddefnydd. ARGAELEDD – Mae unrhyw dir nad yw'n ddarostyngedig i eithriad neu gyfyngiad ar gael 24/7 i ddefnyddwyr, ond mae yna is-ddeddf y Comisiwn Coedwigaeth sy'n atal y rhai sy'n cario ceufad rhag croesi ei ystad. |

| | | | | |
|------------|---|---|--|---|
| | <p>safle, e.e. arwyddion ar gyfer yr hawliau tramwy cyhoeddus neu oddi ar y safle</p> <ul style="list-style-type: none"> Cysylltiad i hawliau mynediad cyhoeddus eraill tebyg | <p>4. AGOSRWYDD – Oherwydd bod tir yn gyfyngedig i dir agored, tir comin a thir penodedig, mae amrywioldeb o ran agosrwydd gyda rhai ardaloedd (yn arbennig yng Nghymoedd De Cymru) yn agos iawn at bobl.</p> <p>5. RHWYSTRAU – Mae gan yr awdurdod mynediad bwerau i alluogi mynediad a gellir ymestyn hyn i ddefnyddwyr hawliau uwch. Mae'n rhaid iddynt ystyried materion symudedd eisoes, ond nid oes ganddynt unrhyw bwerau i roi arwyneb ar dir mynediad.</p> <p>6. GWYBODAETH – Mae yna symbol mynediad agored, un newydd, yn ogystal â byrddau dehongli y gellid eu datblygu. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau mynediad i osod y naill neu'r llall.</p> <p>7. CYSYLLTIADAU – Oherwydd bod y diffiniad ar fath o dir, mae unrhyw gyswllt yn ddamweiniol, ond mae yna lawer o gysylltiadau oddi ar dir mynediad.</p> | <p>atal y rhai sy'n cario ceufad rhag croesi ei ystad.</p> <p>4. AGOSRWYDD – Gallai agosrwydd at boblogaeth fod yn y meini prawf, ond drwy gyfyngu'r swm o dir sy'n hygyrch i hawliau uwch, rydych yn lleihau'r swm o dir sy'n hygyrch i ddefnyddwyr hawliau uwch lleol.</p> <p>5. RHWYSTRAU – Mae gan yr awdurdod mynediad bwerau i alluogi mynediad a disgwylir i rwystrau fod yn rhan o'r meini prawf.</p> <p>6. GWYBODAETH – Mae yna symbol mynediad agored, un newydd, yn ogystal â byrddau dehongli y gellid eu datblygu lle ceir hawliau uwch. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau mynediad i osod y naill neu'r llall.</p> <p>7. CYSYLLTIADAU – Byddent yn ardaloedd o dir sy'n hygyrch i fynediad beicio/marchogaeth, felly mae unrhyw gyswllt yn ddamweiniol, ond mae yna lawer o gysylltiadau oddi ar dir mynediad.</p> | <p>4. AGOSRWYDD – Gallai llwybrau sy'n cysylltu cymunedau fod yn y meini prawf. Drwy gyfyngu mynediad i goridau, bydd mynediad i ddefnyddwyr hawliau uwch lleol wedi'i gyfyngu i'r coridorau hynny.</p> <p>5. RHWYSTRAU – Mae gan yr awdurdod mynediad bwerau i alluogi mynediad a disgwylir i rwystrau fod yn rhan o'r meini prawf.</p> <p>6. GWYBODAETH – Mae yna symbol mynediad agored, un newydd, yn ogystal â byrddau dehongli y gellid eu datblygu. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddyletswydd ar awdurdodau mynediad i osod y naill neu'r llall.</p> <p>7. CYSYLLTIADAU – Bydd y coridorau yn cysylltu ardal â phwynt dechrau/gorffen diffiniedig.</p> |
| Parhauster | <p>Mynediad 'drwy hawl' am byth, neu'n ganiataol? Sefyllfa i wahanol ddefnyddwyr hawliau?</p> <ul style="list-style-type: none"> Sefyllfa absoliwt ac yn berthynol i opsiynau eraill [gweler graddau ac ansawdd]. Yn gymwys i raddau sylweddol. | <ul style="list-style-type: none"> Byddai mynediad i bob defnyddiwr am byth ar dir penodedig (neu hyd nes y byddai prydles hirdymor yn dod i ben). Gallai tir comin a thir agored newid yn yr adolygiad nesaf. Ni fyddai hyn yn berthnasol i dir wedi'i eithrio neu dir pan fydd eithriad/cyfyngiad gweithredol (sydd ond yn effeithio ar rai defnyddwyr o bosibl). Nid yw statws tir Adran 15 wedi'i ddatrys. <p>O.N. Oherwydd bod pob darn o dir penodedig yn eiddo cyhoeddus (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n berchen ar un ardal ac mae'r gweddill yn Ystad Goetir Llywodraeth Cymru), tybir y rhoddir mynediad i ddefnyddwyr hawliau uwch.</p> | <ul style="list-style-type: none"> Byddai mynediad i gerddwyr / 'defnyddwyr dŵr' / defnyddwyr chwaraeon awyr yn cael ei ddostrarthu o dan 1A(i). Byddai mynediad i farchogion ar dir Adran 15 yr un fath. Mae mynediad posibl i feicwyr ar ardaloedd 'cymeradwy' o dir Adran 15 i'w benderfynu. Byddai mynediad i feicwyr/marchogion ar ardaloedd 'cymeradwy' o dir am byth ar dir penodedig ac yn destun adolygiad ar diroedd eraill CRow (a hefyd yn ddarostyngedig i eithriadau/cyfyngiadau a thir wedi'i eithrio). <p>O.N. Oherwydd bod pob darn o dir yng Nghymru yn eiddo cyhoeddus, tybir y rhoddir mynediad i ddefnyddwyr hawliau uwch.</p> | <ul style="list-style-type: none"> Byddai mynediad i gerddwyr / 'defnyddwyr dŵr' / defnyddwyr chwaraeon awyr yn cael ei ddostrarthu o dan 1A(i). Byddai mynediad i farchogion ar dir Adran 15 yr un fath. Mae coridorau sy'n hygyrch i feicwyr ar dir Adran 15 i'w penderfynu. Byddai mynediad i feicwyr/marchogion ar ardaloedd 'cymeradwy' o dir am byth ar dir penodedig ac yn destun adolygiad ar diroedd eraill CRow (a hefyd yn ddarostyngedig i eithriadau/cyfyngiadau a thir wedi'i eithrio). <p>O.N. Oherwydd bod pob darn o dir yng Nghymru yn eiddo cyhoeddus, tybir y rhoddir mynediad i ddefnyddwyr hawliau uwch.</p> |

| | | | | |
|----------------------------|---|--|--|--|
| <p>Eglurder a sicrwydd</p> | <p>Eglurder hawliau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Syml neu gymhleth i'w deall • Deellir beth y gellir a beth na ellir ei wneud, lle a phryd, i bawb â diddordeb • Os a sut y bydd opsiwn yn ddarostyngedig i newid (dros dro neu barhaol, e.e. eithriadau a chyfyngiadau). • Gallu i gyfleu gwybodaeth berthnasol am fynediad | <ul style="list-style-type: none"> • Opsiwn mwyaf syml i'w ddeall – h.y. hawliau uwch ar bob darn o dir mynediad (tir Adran 15 i'w gadarnhau, tybir bod tir penodedig wedi'i gynnwys – gweler uchod). • Bydd newidiadau oherwydd eithriadau a chyfyngiadau yn cael eu cadarnhau gan awdurdodau perthnasol os byddant yn fwy na 6 mis (mae gan yr ymgeisydd y dewis i lofnodi eithriadau a chyfyngiadau o dan 6 mis). • Mae mynediad i dir y mae'r perchennog/meddiannydd yn credu sydd wedi'i eithrio o dan Atodlen 1 yn parhau fel y mae. • Byddai gwybodaeth yn cael ei chyfleu drwy arwyddion ar y ddaear, symbol mynediad newydd arfaethedig, a thrwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymu. | <ul style="list-style-type: none"> • Opsiwn mwy dryslyd i'w ddeall oherwydd byddai mynediad i farchogion/beicwyr wedi'i gyfyngu i ardaloedd penodol. • Bydd newidiadau i unrhyw ardal oherwydd eithriadau a chyfyngiadau yn cael eu cadarnhau gan awdurdodau perthnasol os byddant dros 6 mis (mae gan yr ymgeisydd y dewis i lofnodi eithriadau a chyfyngiadau o dan 6 mis). • Mae mynediad i dir y mae'r perchennog/meddiannydd yn credu sydd wedi'i eithrio o dan Atodlen 1 yn parhau fel y mae, ond mae'n debygol y byddai'r meini prawf yn eithrio unrhyw ardal sydd wedi'i heithrio yn awr. • Byddai gwybodaeth yn cael ei chyfleu drwy arwyddion ar y ddaear, symbol mynediad newydd arfaethedig, gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru, mapio graddfa Explorer yr Arolwg Ordnans, ac unrhyw fapiau newydd a ddarperir drwy Ddiwygiad 3A. | <ul style="list-style-type: none"> • Opsiwn mwy dryslyd i'w ddeall oherwydd byddai mynediad i farchogion/beicwyr wedi'i gyfyngu i goridorau penodol. • Y broblem fwyaf yw lled y coridor a sut y bydd hynny'n cael ei gyfathrebu/gorfodi. • Bydd newidiadau i unrhyw ardal oherwydd eithriadau a chyfyngiadau yn cael eu cadarnhau gan awdurdodau perthnasol os byddant dros 6 mis (mae gan yr ymgeisydd y dewis i lofnodi eithriadau a chyfyngiadau o dan 6 mis). • Mae mynediad i dir y mae'r perchennog/meddiannydd yn credu sydd wedi'i eithrio o dan Atodlen 1 yn parhau fel y mae, ond mae'n debygol y byddai'r meini prawf yn eithrio unrhyw ardal sydd wedi'i heithrio yn awr. • Mae posibilrwydd y bydd coridorau yn cael eu cwtagi oherwydd eithriadau a chyfyngiadau neu dir sydd newydd gael ei ddsbarthu fel tir wedi'i eithrio. • Byddai gwybodaeth yn cael ei chyfleu drwy arwyddion ar y ddaear, symbol mynediad newydd arfaethedig, a thrwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| <p>Cost</p> | <p>Costau amcangyfrifedig cynnig ar gyfer gwahanol sectorau: amcangyfrifon gwirioneddol, dangosol neu gymharol.</p> <p>Ystyried costau gweinyddol, gweithredu a pharhaus yn nhermau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyllid • Adnoddau • Perthynol i'r sefyllfa bresennol • Perthynol i gynigion eraill | <p>Hwn yw'r opsiwn rhataf i'w weithredu.</p> <p>Mae'r costau gweithredu yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau cydymffurfiaeth â phob deddfwriaeth, gan gynnwys Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. • Gweithredu unrhyw gyfyngiadau hirdymor hanfodol (5 mlynedd cyn ailgyflwyno cais). • Cyfathrebu hawliau newydd. <p>Ymhlith y costau parhaus mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd tebygol yn nifer y ceisiadau a hysbysiadau. • Costau cyfathrebu parhaus. • Datblygu brandio a symbolau mynediad newydd. • Pwyntiau mynediad newydd arfaethedig. • Unrhyw faterion rheoli mynediad ychwanegol eraill sy'n dod i'r amlwg. | <p>Yr opsiwn hwn yw'r gost weithredu ganolog bosibl o'r tri opsiwn.</p> <p>Mae'r costau gweithredu yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau cydymffurfiaeth â phob deddfwriaeth, gan gynnwys Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. • Datblygu meini prawf a mapio ardaloedd arfaethedig, gan gynnwys system sylwadau/apeliadau bosibl. Yn seiliedig ar yr adolygiad degawdol, mae hyn yn golygu 3 aelod o staff canolog (2 x G6 ac 1 x G7) a 5 x 0.2 (G6) amser staff rhanbarthol. Costau'r adolygiad degawdol yn 2013-14 oedd tua £183,000. • Gweithredu unrhyw gyfyngiadau hirdymor hanfodol (5 mlynedd cyn ailgyflwyno cais). • Cyfathrebu hawliau newydd. • Pwynt mynediad newydd (yr awdurdod mynediad sy'n gyfrifol am hyn). | <p>Yr opsiwn hwn yw'r gost weithredu ddrutaf bosibl o'r tri opsiwn.</p> <p>Mae'r costau gweithredu yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau cydymffurfiaeth â phob deddfwriaeth, gan gynnwys Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. • Datblygu meini prawf a mapio ardaloedd arfaethedig, gan gynnwys system sylwadau/apeliadau bosibl. Yn seiliedig ar yr adolygiad degawdol, mae hyn yn golygu 3 aelod o staff canolog (2 x G6 ac 1 x G7) a 5 x 0.2 (G6) amser staff rhanbarthol. Costau'r adolygiad degawdol yn 2013-14 oedd tua £183,000. • Datblygu sut y byddai coridorau'n cael eu hystyried. • Gweithredu unrhyw gyfyngiadau hirdymor hanfodol (5 mlynedd cyn ailgyflwyno cais). • Cyfathrebu hawliau newydd. |

| | | | | |
|-------------------|---|---|--|---|
| | | | <p>Ymhlith y costau parhaus mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd tebygol yn nifer y ceisiadau a hysbysiadau. • Costau cyfathrebu parhaus. • Datblygu brandio a symbolau mynediad newydd. • Pwyntiau mynediad newydd arfaethedig. • Materion rheoli ardaloedd hawliau uwch – yn ddibynnol ar ba elfennau sy'n cael eu datblygu. | <p>Ymhlith y costau parhaus mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd tebygol yn nifer y ceisiadau a hysbysiadau. • Costau cyfathrebu parhaus. • Datblygu brandio a symbolau mynediad newydd. • Cynnal a chadw coridorau yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hygyrch. |
| Monitro a gorfodi | <p>Gorfodi hawliau a chyfrifoldebau, yn nhermau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallu i orfodi • Galw/angen am gamau gorfodi • Effaith debygol ar gydymffurfiaeth â hawliau a chyfrifoldebau • Y gallu i fonitro opsiwn a'i weithredu | <ul style="list-style-type: none"> • Ar hyn o bryd, ychydig iawn o orfodaeth sydd ar gael ar gyfer tir mynediad CROW. • Adran 14 – mae'n drosedd arddangos hysbysiad sy'n atal pobl. • Adran 2(4) – os bydd person yn dod yn dresmaswr, ni all ailymweld â'r parcel o dir mynediad am 72 awr. • Mae natur helaeth tir CROW yn golygu bod gorfodaeth yn anodd, felly addysg ymlaen llaw ac ar y prif bwyntiau mynediad fyddai'r ateb gorau. • Gyda gwrthdaro posibl, yn arbennig rhwng cerddwyr, marchogion a beicwyr, a nofwyr, cychod dŵr a physgotwyr, efallai y bydd galw am god gwirfoddol neu statudol. | <ul style="list-style-type: none"> • Ar hyn o bryd, ychydig iawn o orfodaeth sydd ar gael ar gyfer tir mynediad CROW. • Adran 14 – mae'n drosedd arddangos hysbysiad sy'n atal pobl. • Adran 2(4) – os bydd person yn dod yn dresmaswr, ni all ailymweld â'r parcel o dir mynediad am 72 awr. • Mae natur helaeth tir CROW yn golygu bod gorfodaeth yn anodd, felly addysg ymlaen llaw ac ar y prif bwyntiau mynediad fyddai'r ateb gorau. • Gyda gwrthdaro posibl, yn arbennig rhwng cerddwyr, marchogion a beicwyr, a nofwyr, cychod dŵr a physgotwyr, efallai y bydd galw am god gwirfoddol neu statudol. Byddai angen i hwn gynnwys canllawiau/cyngor wedi'u diweddarau, ochr yn ochr â gwybodaeth am weithgareddau hamdden cyfrifol. | <ul style="list-style-type: none"> • Ar hyn o bryd, ychydig iawn o orfodaeth sydd ar gael ar gyfer tir mynediad CROW. • Adran 14 – mae'n drosedd arddangos hysbysiad sy'n atal pobl. • Adran 2(4) – os bydd person yn dod yn dresmaswr, ni all ailymweld â'r parcel o dir mynediad am 72 awr. • Mae natur helaeth tir CROW yn golygu bod gorfodaeth yn anodd, felly addysg ymlaen llaw ac ar y prif bwyntiau mynediad fyddai'r ateb gorau. • Mae posibilrwydd y bydd beicwyr a marchogion yn gadael y coridor, oherwydd erydiad, gan ddefnyddio'r coridor fel dull o gael mynediad yn unig, neu i gwblhau llwybr cylchol. • Gyda gwrthdaro posibl, yn arbennig rhwng cerddwyr, marchogion a beicwyr, a nofwyr, cychod dŵr a physgotwyr, efallai y bydd galw am god gwirfoddol neu statudol. |

| | | | | |
|-------------------------------------|--|--|---|---|
| Mynediad cyfartal | <p>Er mwyn asesu'r effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar fynediad cyfartal, mae'n rhaid ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y boblogaeth gyffredinol • Pobl â nodweddion gwarchoddedig • Yn benodol, ar gyfer y rhai â phroblemau symudedd, anghydraddoldeb cymdeithasol • Effeithiau gwahanol: ar ddeiliaid tir • Effeithiau gwahanol: ar ddosbarthiadau o ddefnyddwyr • Maint/graddfa effeithiau ar yr uchod | <ul style="list-style-type: none"> • POBLOGAETH – Cerdded yw'r gweithgarwch mwyaf cyfartal oherwydd nid oes angen unrhyw offer arbenigol. Fodd bynnag, bydd yn cynyddu'n sylweddol y mynediad fydd ar gael i eraill ar gyfer hamdden. • NODWEDDION FFISEGOL – Mae 80% o farchogion yn fenywod (sciencedaily.com), mae tua 70% o feicwyr yn ddynion (cyclinguk.org). Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am unrhyw effeithiau ar nodweddion gwarchoddedig ac a fyddai cynyddu'r mathau o ddefnydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw grwpiau. • DEILIAID TIR – Yn yr un modd â CRoW, byddai hyn yn rhoi hawl i fathau eraill o ddefnyddwyr gael mynediad i dir heb iawndal. Fodd bynnag, byddai'n lleihau atebolrwydd perchennog/meddiannydd. • EFFEITHIAU DEFNYDDIAU ERAILL A GRADDFA – Mae'n bosibl y gallai cerddwyr gael eu heffeithio'n negyddol gan farchogion neu feicwyr. (Mae gan Gyngor Sir Penfro arwyddion ar gilffyrdd cyfyngedig ynghylch pwy sy'n cael blaenoriaeth dros bwy.) Byddai graddfa hyn yn amrywio, ond llwybrau cul poblogaidd fyddai'r broblem fwyaf yn amlwg. | <ul style="list-style-type: none"> • POBLOGAETH – Cerdded yw'r gweithgarwch mwyaf cyfartal oherwydd nid oes angen unrhyw offer arbenigol. Fodd bynnag, bydd yn cynyddu'n sylweddol y mynediad fydd ar gael i eraill ar gyfer hamdden. • NODWEDDION FFISEGOL – Mae 80% o farchogion yn fenywod (sciencedaily.com), mae tua 70% o feicwyr yn ddynion (cyclinguk.org). Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am unrhyw effeithiau ar nodweddion gwarchoddedig ac a fyddai cynyddu'r mathau o ddefnydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw grwpiau. Ond sgil effaith yw y gallai Trampwyr ac yn y blaen gael mwy o fynediad os yw giatiau'n farchogol. • DEILIAID TIR – Yn yr un modd â CRoW, byddai hyn yn rhoi hawl i fathau eraill o ddefnyddwyr gael mynediad i dir heb iawndal. Fodd bynnag, byddai'n lleihau atebolrwydd perchennog/meddiannydd. • EFFEITHIAU DEFNYDDIAU ERAILL A GRADDFA – Mae'n bosibl y gallai cerddwyr gael eu heffeithio'n negyddol gan farchogion neu feicwyr. (Mae gan Gyngor Sir Penfro arwyddion ar gilffyrdd cyfyngedig ynghylch pwy sy'n cael blaenoriaeth dros bwy.) Byddai graddfa hyn yn amrywio, ond llwybrau cul poblogaidd fyddai'r broblem fwyaf yn amlwg. | <ul style="list-style-type: none"> • POBLOGAETH – Cerdded yw'r gweithgarwch mwyaf cyfartal oherwydd nid oes angen unrhyw offer arbenigol. Fodd bynnag, bydd yn cynyddu'n sylweddol y mynediad fydd ar gael i eraill ar gyfer hamdden. • NODWEDDION FFISEGOL – Mae 80% o farchogion yn fenywod (sciencedaily.com), mae tua 70% o feicwyr yn ddynion (cyclinguk.org). Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am unrhyw effeithiau ar nodweddion gwarchoddedig ac a fyddai cynyddu'r mathau o ddefnydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw grwpiau. Ond sgil effaith yw y gallai Trampwyr ac yn y blaen gael mwy o fynediad os yw giatiau'n farchogol. • DEILIAID TIR – Yn yr un modd â CRoW, byddai hyn yn rhoi hawl i fathau eraill o ddefnyddwyr gael mynediad i dir heb iawndal. Fodd bynnag, byddai'n lleihau atebolrwydd perchennog/meddiannydd. • EFFEITHIAU DEFNYDDIAU ERAILL A GRADDFA – Mae'n bosibl y gallai cerddwyr gael eu heffeithio'n negyddol gan farchogion neu feicwyr. (Mae gan Gyngor Sir Penfro arwyddion ar gilffyrdd cyfyngedig ynghylch pwy sy'n cael blaenoriaeth dros bwy.) Byddai graddfa hyn yn amrywio, ond llwybrau cul poblogaidd fyddai'r broblem fwyaf yn amlwg. |
| Mwy o effeithlonrwydd a thryloywder | <ul style="list-style-type: none"> • Gofynion proses gwell a/neu ostyngol i randdeiliaid • Llai o amser, gan gynnwys y prosesau gweinyddol [gweler costau hefyd] • Mynediad gwell i brosesau gan randdeiliaid | Er nad yw'n ostyngiad i gostau, hwn yw'r opsiwn rhataf gyda hawliau'n cael eu trosglwyddo'n symlach i dir mynediad. | Gallai hyn gael effaith sylweddol ar gost gychwynol. Byddai'r meini prawf yn agored ac ar gael i bawb eu gweld. | Gallai hyn gael effaith sylweddol ar gost gychwynol. Byddai'r meini prawf yn agored ac ar gael i bawb eu gweld. |

| | | |
|--------------------------------------|---|---|
| Ecosystema u a gwytnwch ecosystema u | <p>Effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral. Ffactorau i'w hystyried os bydd y dystiolaeth yn caniatáu, ynghylch yr effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Graddau: byddai newidiadau i hawliau ardal/hyd yn berthnasol a bydd effeithiau yn digwydd [gan gynnwys graddau'r safleoedd a rhywogaethau gwarchoddedig fyddai'n cael eu heffeithio] • Newid i lefelau a'r math o effeithiau neu eu cymeriad • Newid i ddisbarthiad effeithiau • Gwytnwch i effeithiau [cynefinoedd/rhywogaethau] • Darpariaeth ddigonol i atal neu liniaru effeithiau | <p>Byddai defnydd yn cynyddu (er y bydd yn anwastad). Mae'r prif bryderon ar draws pob un o'r tri opsiwn oherwydd byddent i gyd yn cael effaith debyg, yn dibynnu ar ble mae'r hawliau; byddai'n bosibl lliniaru llawer o'r rhain drwy eithriadau a chyfyngiadau a gallai 1A(ii) ac 1A(iii) osgoi meysydd o bryder gwirioneddol.</p> <p>Y ffactorau sy'n dylanwadu ar yr effeithiau yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd tystiolaeth sy'n cynyddu lefelau defnydd yn cynyddu'r aflonyddwch ar gynefinoedd a rhywogaethau, ond er gwaethaf y pryderon, ni ddigwyddodd hyn gyda CRoW. • Mae defnyddwyr hawliau uwch yn cael mwy o effaith ar y cyfan, ond mae yna lai ohonynt gyda'r math o aflonyddwch yn wahanol i fynediad ar droed. • O'i gymharu â mynediad i gerddwyr, gall mynediad marchogol (ac i raddau llai, mynediad i feicwyr) gael llawer mwy o effaith erydu, sy'n bryder penodol mewn ardaloedd ucheldir a safleoedd penodol sy'n agored i niwed. • Bydd angen ystyried Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac yn y blaen (fel y gwnaed cyn gweithredu CRoW). • Dim ond un eithriad a chyfyngiad (tymhorol) a gyflwynwyd am resymau cadwraeth natur, oherwydd gweilch yn magu. • Gellir caniatáu eithriadau a chyfyngiadau hefyd am resymau cadwraeth treftadaeth. |
| Rheoli tir a dŵr yn gynaliadwy | <p>Ffactorau i'w hystyried os bydd effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol ar reoli tir neu ddŵr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aflonyddu ar dda byw a rheolaeth o dda byw • Dulliau rheoli tir amaethyddol a thir arall wedi'u heffeithio • Goblygiadau bioddiogelwch sylweddol • Defnydd cynyddol posibl o dir [graddfa galw] <p>D.S.: Ystyriaethau ar gyfer ecosystemau i'w cynnwys yn yr ystyriaeth flaenorol uchod.</p> | <p>Gweler y meini prawf eraill ar gyfer yr effeithiau cyffredinol.</p> <p>Mae'r sylwadau penodol isod yn cwmpasu'r tri opsiwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • DA BYW – Mae mynediad ar dir agored a thir comin yn golygu nad yw tir yn cael ei reoli'n ddwys gyda gofod i dda byw symud i ffwrdd. Mae'r mynediad ar hyd llinellau a ddymunir ar y cyfan (a byddai coridor ar gyfer 1Aiii). Gallai mynediad at ddŵr fod yn broblem os bydd galw uchel gan ddefnyddwyr i ardaloedd bach a lle mai dim ond ychydig o bwyntiau dŵr sydd ar gael. Wrth ddefnyddio tir mynediad CRoW, mae'n rhaid cadw cŵn ar dennyn sefydlog o lai na dau fetr yn agos at dda byw a phob amser rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf. • RHEOLI TIR – Nid yw'n cael ei reoli'n helaeth. Ystod o hysbysiadau/ceisiadau eithriadau a chyfyngiadau ar gael. • BIODDIOGELWCH – Mae rheoliadau COVID-19, traed a'r genau ac yn y blaen yn drech na CRoW. Mater pwysig arall yw mewn cysylltiad â chŵn a chlefyd hydatid, ond caniateir hwy eisoes o dan CRoW. Gall berdys rheibus, dail-ceiniog arnofiol, jac y neidiwr ac yn y blaen achosi problem o ran cael mynediad i ddŵr. • DEFNYDD CYNYDDOL O DIR – Risgiau a rhagdybiaeth uwch o risg gyda mwy o atebolrwydd o bosibl o ganlyniad i nodweddion nad ydynt yn rhai naturiol oherwydd gwahanol ddefnyddwyr a defnydd cynyddol. Cynnydd posibl mewn eithriadau a chyfyngiadau. Gallai giatiau marchogol gynyddu nifer y cerbydau petrol / a yrrir yn drydanol diawdurdod ar dir. |
| Iechyd a llesiant | Ffactorau i'w hystyried os bydd effaith gadarnhaol, | Mae'r sylwadau hyn ar draws pob un o'r tri opsiwn am eu bod i gyd yn cyfeirio at ddefnyddwyr hawliau uwch. |

| | | |
|---------------------------------|--|---|
| | <p>niwtral neu negyddol ar lesiant corfforol a meddyliol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Newidiadau i ddefnydd a'r buddion sy'n deillio o hynny Yr effaith ar wahanol grwpiau o'r boblogaeth, e.e. cymharol ddifreintiedig | <p>Cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mwy o fynediad ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch (buddion iechyd corfforol a meddyliol) Llai o risg o anaf i farchogion OS byddant yn cael mynediad i dir yn hytrach na marchogaeth ar ffyrdd Llai o risg o anafiadau o bosibl i feicwyr gan draffig OS ydynt yn cael mynediad i dir yn hytrach na beicio ar y ffyrdd <p>Negyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Straen posibl ar berchennog/meddianwyr a achosir gan fynediad uwch Ofn posibl / llai o ddefnydd gan gerddwyr oherwydd beicwyr/marchogion oherwydd cyflymder ac na fydd yn bosibl cerdded mewn rhai ardaloedd oherwydd hawliau uwch Mwy o anafiadau i feicwyr oherwydd tir anwastad Llai o ddefnydd gan bysgotwyr oherwydd mynediad at hawliau dŵr |
| Cydlyniant cymunedol | <p>Ffactorau i'w hystyried os bydd effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol ar gydlyniant cymunedol. Mae angen ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> Newidiadau i ddefnydd a hygyrchedd lleol mewn ardal Newidiadau i fuddion llesiant ac economaidd lleol Yr effaith debygol ar fuddiannau cymunedol | <p>Cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mwy o farchogion/beicwyr o bosibl (sy'n amodol ar ddewis 1Ai, 1Aii neu 1Aiii ac, os y ddau olaf, lle mae'r mynediad i feicwyr/marchogion). Hefyd mae hawliau uwch yn galw am wariant ariannol, felly ni fydd pawb yn cymryd rhan yn hyn, felly mae'r galw'n amrywiol. <p>Negyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwrthdaro posibl rhwng defnyddwyr, naill ai oherwydd cyflymder beicwyr/marchogion o gymharu â mynediad ar droed neu oherwydd difrod i arwyneb. |
| Busnes llwyddiannus a chyfrifol | <p>Ffactorau i'w hystyried os bydd effaith gadarnhaol, niwtral neu negyddol ar fusnesau cyfrifol. Mae angen ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yr effaith ar gyfleoedd economaidd Effaith newidiadau ar wahanol sectorau Dosbarthiad [gweler y graddau] <p>D.S.: gallai fod yn anodd asesu tystiolaeth o gostau gwirioneddol neu effaith gyffredinol [cadarnhaol, negyddol ac yn y blaen] ar y cam hwn.</p> | <p>Yn ddibynnol ar le mae'r mynediad uwch a'r galw (cynnydd mewn niferoedd a/neu gynnydd mewn amllder). Mae'n anodd asesu'r union ganlyniad.</p> <p>Cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnydd posibl yn y defnydd o fusnesau lleol (bwyd, diod, siopau beicio, llogi beiciau) gyda chynnydd mewn gwariant ymwelwyr. Cynnydd posibl yn y galw am lety / gwasanaethau stablau hurio gan ddefnyddwyr hawliau uwch. <p>Negyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnydd posibl mewn costau i berchennog/meddianwyr (yn arbennig Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd bod ganddo ffyrdd ag arwyneb caled) ac awdurdodau mynediad (e.e. y galw am giatia, toiledau a meysydd parcio). Defnydd cynyddol o gyfleusterau busnes lleol (e.e. meysydd parcio a thoiledau) heb brynu unrhyw beth. |

Tablau elfennau allweddol

Mae'r tri thabl isod yn amlinellu'r elfennau allweddol a gynigir gan y 'grŵp arbenigol' yn ystod y cam nodi opsiynau. Maent hefyd yn nodi'r diwygiadau a gynigiwyd i'r elfennau allweddol hyn yn dilyn y dadansoddiad uchod ac ymgynghoriad â grwpiau arbenigol.

1A(i): Ystyriaethau ar gyfer diwygio neu ddatblygu'r cynnig opsiwn a'r elfennau allweddol ymhellach

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|---|---|
| 001 | <p>Diwygio deddfwriaeth Atodlen 2 Deddf CROW ar gyfer tir mynediad nad yw'n arfordirol er mwyn caniatáu ar gyfer gweithgareddau hamdden ychwanegol ar dir mynediad presennol yn unol â bwriad y polisi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beicio, marchogaeth, barcuta a pharagleidio <p>Ar ddyfroedd CROW (ac eithrio cronfeydd dŵr):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cychod nad ydynt wedi'u gyrru'n fecanyddol; ymdrochi/nofio | <p>Hepgor 001/amgen – ei chynnwys yn Niwygiad1B.</p> <p>Ystyried tir Adran 15 a chyngor cyfreithiol ar yr opsiynau.</p> <p>Mae angen cyngor cyfreithiol ar dir Adran 16.</p> <p>Mae angen cyngor cyfreithiol am Is-ddeddf 648 y Comisiwn Coedwigaeth.</p> <p>Dylai cychod nad ydynt yn cael eu gyrru'n fecanyddol gael eu heithrio'n benodol.</p> <p>Un ffordd o ddeddfu'r hawl wirioneddol yw drwy gael gwared ar gydsyniad dirfeddiannwr o Atodlen 2, paragraff 7(1).</p> |
| 002 | <p>Byddai mapiau presennol CROW yn berthnasol (h.y. dim gofyniad i ailfapio mynediad CROW fel mynediad tir gan y gwnaed y mapio yn ôl mathau o dir diffiniedig yn unig – mynydd, gwaun ac yn y blaen).</p> | <p>Hepgor 002/amgen [am ei bod wedi'i chynnwys yn Niwygiad 1B].</p> |
| 003 | <p>Byddai deddfwriaeth CROW yn berthnasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hawliau mynediad (gan gynnwys mapiau – gweler uchod) • Y drefn eithriadau a chyfyngiadau • Y dull mynediad | <p>Hepgor 003/amgen – mae wedi'i chynnwys yn Niwygiad1B ac ni ddarparwyd tystiolaeth bod angen diwygio'r eithriadau a chyfyngiadau.</p> |
| 004 | <p>Cymhwyso cod mynediad statudol i ddiffinio hawliau a chyfrifoldebau.</p> | <p>004/amgen – darperir cod cynghorol eisoes yn Adran 20 Deddf CROW.</p> |

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|---|--|
| 005 | Addysg a hyrwyddo ar gyfer cod ymddygiad. Gorfodaeth yn gysylltiedig â'r cod statudol gyda mesurau, er enghraifft hysbysiadau cosb benodedig [defnyddio arian dros ben ar gyfer costau mynediad CRow]. | Cynnal ond nodi bod addysg a hyrwyddo yn fater ar gyfer y cam gweithredu. Trafod ymarferoldeb/gorfodaeth hysbysiadau cosb benodedig. |
| 006 | Darpariaeth i ganiatáu gwelliannau i fynediad (symudedd) giatiau a chamfeydd. Mae angen i'r holl gelfi gyflawni'r safonau hygyrchedd, er enghraifft safon BS5709, pan gânt eu disodli. | Nodyn ar gyfer 006/amgen bod ffynonellau cyllid yn bwysig ond yn faterion i'w gweithredu yn hytrach na diwygiad deddfwriaethol. Gallai gysylltu ag elfen 002 – dull mynediad. |
| 007 | Symbol mynediad agored newydd ar gyfer arwyddion ar y ddaear (e.e. cyfeirbwynt) – mae angen i'r dyluniad newydd ymgorffori pob defnyddiwr. Mapiâu'r Arolwg Ordnans a mapiau eraill i gydnabod yr hawliau gwahanol CRow sy'n berthnasol yng Nghymru. | Cynnal 007. Byddai unrhyw symbol newydd yn cael ei ddatblygu yn dilyn newid deddfwriaethol. Gallwn ond gwneud cais i gwmnïau mapio gyfleu'r gwahanol hawliau mynediad o dan CRow. |
| 008 | Cyllid amaeth-amgylcheddol i fod ar gael ar gyfer gwelliannau i fynediad a seilwaith cefnogol. | Cynnal 008 – er y byddai angen ei hystyried fel rhan o'r broses o hwyluso gweithrediad diwygiadau yn hytrach na diwygiadau deddfwriaethol. |
| 009 | Tirfeddianwyr – adolygu eu hawl i apelio diffiniadau o fewn y ddeddfwriaeth bresennol. | Hepgor 009 – y tu hwnt i gwmpas bwriad diwygio Llywodraeth Cymru. |
| 010 | Cyfathrebu newidiadau yng Nghymru a Lloegr, yn arbennig mewn cysylltiad â'r effaith draws-ffiniol. | Cynnal 010 – cefnogol, nodi ei bod yn fater ar gyfer y cam gweithredu. |
| 011 | Atebolrwydd is i dirfeddianwyr, yn unol â threfniadau mynediad presennol CRow ar gyfer pob defnyddiwr. (i) Gallai'r effaith fod yn uwch ar feicwyr/marchogion. | [011/amgen – cymhwyso atebolrwydd Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir [cymharol is] neu lefel arall o atebolrwydd meddianwyr ar gyfer holl dir mynediad CRow yng Nghymru.] Mae atebolrwydd CRow yn berthnasol i bawb sy'n cael mynediad i dir yn gyfreithiol; |

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|--|---|
| | | gallai lefel Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir neu lefel arall o atebolrwydd gael ei chyflwyno. |

1A(ii): Ystyriaethau ar gyfer diwygio neu ddatblygu'r cynnig opsiwn a'r elfennau allweddol ymhellach

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|---|---|
| 001 | Mae pwerau dewisol wedi'u cynnwys yn Rhan I Deddf CRoW er mwyn i awdurdodau mynediad ystyried addasrwydd tir mynediad diffiniedig CRoW ar gyfer gweithgareddau cyfyngedig Atodlen 2 o fewn eu hardal. | <p>(001/amgen – dyletswydd i awdurdodiadau mynediad asesu holl dir mynediad CRoW yn eu hardal ar sail dreigl.)</p> <p>Mae angen cyngor cyfreithiol ar oblygiadau proses ddethol ar gyfer nodi tir mynediad CRoW ar gyfer hawliau uwch.</p> <p>Yr opsiwn hwn yw'r un â'r gost uchaf ac mae awdurdodau mynediad wedi pwysleisio eu cyfyngiadau cyllidebol.</p> <p>Gellir cyfuno hyn ag elfennau 003, 003/amgen, 004 004/amgen a 005/amgen am eu bod i gyd yn cwmpasu'r un maes o'r opsiwn.</p> <p>Mae angen gwneud penderfyniad yn gynnar o ran a yw'n ddyletswydd neu'n bŵer ac a yw'n berthnasol i'r awdurdod mynediad neu'r awdurdod perthnasol.</p> <p>Mae angen i'r elfen allweddol egluro bod yr opsiwn hwn ond wedi'i drafod o ddifrif fel opsiwn ar gyfer marchogion a beicwyr.</p> <p>Ffordd syml o ddeddfu'r hawl fyddai i ddileu cydsyniad</p> |

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|--|---|
| | | tirfeddianwyr o Atodlen 2, paragraff 7(1). |
| 002 | <p>Pwerau i ddiffinio mewn rheoliadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Meini prawf asesu addasrwydd ar gyfer mynediad hawliau uwch i fod yn berthnasol i dir mynediad. • Prosesau asesu a'r defnydd a wneir ohonynt (gan gynnwys diffinio 'ardal o dir mynediad' at ddibenion asesu). | <p>Rheoliadau sy'n cefnogi diwygiadau'r Ddeddf fyddai'r opsiwn gorau.</p> <p>Mae hefyd yn cynnwys elfennau 005/amgen (cyrff ymgynghorol, effaith a safleoedd pot mêl) a 014 – ond mae pryder ynghylch beth yw 'addasrwydd', yn arbennig os yw'n gysylltiedig â 'gallu i ddefnyddio' oherwydd bod gallu technegol defnyddwyr yn amrywio.</p> <p>Mae hefyd yn cynnwys 011/amgen os 'galw' yw un o ddiffiniadau'r meini prawf.</p> |
| 003 | Pwerau i awdurdodiadau mynediad asesu tir mynediad CRoW fel tir addas ar gyfer gwneud cais am hawliau uwch. | <p>[003/amgen – dyletswydd i awdurdodau mynediad asesu addasrwydd tir mynediad CRoW ar gyfer hawliau uwch.]</p> <p>Gweler elfen 001 oherwydd mae hon yn berthnasol i'r ddarpariaeth drosfwaol.</p> |
| 004 | Asesiadau a gynhaliwyd yn ôl disgrisiwn yr awdurdod mynediad. | <p>[004/amgen – dyletswydd i awdurdodau mynediad asesu addasrwydd tir mynediad CRoW ar gyfer hawliau uwch.]</p> <p>Gweler elfen 001 oherwydd mae hon yn berthnasol i'r ddarpariaeth drosfwaol.</p> |
| 005 | <p>Adolygiad yn ôl achosion unigol ar bob safle asesu / 'ardal o dir mynediad'. Diffinio pwy sy'n cynnal yr asesiad – awdurdod mynediad.</p> <p>Bydd angen ymgynghori â chyrrff eraill ynglŷn ag asesiadau penodol sy'n</p> | <p>005</p> <p>Popeth y mae angen ymchwilio iddynt ac y gallent gael eu cynnwys yn elfen 002.</p> <p>005/amgen – Dewis amgen i'r awdurdod mynediad yw</p> |

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|---|--|
| | <p>berthnasol i swyddogaethau, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw ac yn y blaen.</p> <p>Y meini prawf ar gyfer cynnal asesiad yn seiliedig ar angen/galw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Galw presennol a/neu alw nas bodlonir • Ardaloedd anghysbell + phoblogaidd • Tystiolaeth o alw, e.e. monitro; Strava <p>Dyletswydd – cynaliadwyedd – effeithiau ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheoli tir • Bywyd gwyllt • Treftadaeth hanesyddol • Eraill, i'w diffinio | <p>asesiad gan yr awdurdod perthnasol.</p> <p>Pŵer cyffredinol o fewn elfen 001.</p> <p>Dewis arall yw i gyrff eraill ymgynghori ar asesiadau – rôl cynghori i fforymau mynediad lleol, Croeso Cymru.</p> <p>D.S.: A allai galw/effaith ormodol fod yn rheswm dros wrthod a sut y gwneir penderfyniad ar 'alw' oherwydd gall amrywio dros amser?</p> <p>Gallai greu safleoedd pot mêl.</p> |
| 006 | Byddai system eithriadau a chyfyngiadau CRoW yn berthnasol. Byddai unrhyw gyfyngiadau'n cael eu hystyried os byddai angen ar ôl cymhwyso'r hawliau uwch. | <p>(006/amgen – darparu pwerau ar gyfer cyfyngiadau amddiffynnol yn seiliedig ar feini prawf clir o fewn system eithriadau a chyfyngiadau ddiwygiedig ar y cam asesu.)</p> <p>Caniateir 006 a 006/amgen o fewn deddfwriaeth bresennol CRoW – mae'r elfen hon ar gyfer cadarnhad yn unig – gellid ei hepgor.</p> |
| 007 | <p>Tirfeddiannwr/rheolwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau i gynnal prosesau • Adnoddau wardeiniaid i gefnogi dulliau rheoli ymarferol • Y pwerau i fonitro ac ystyried yr effaith ar reoli tir • Y pwerau i hwyluso croesi terfynau caeau neu derfynau eraill, a rhwystrau | <p>(007/amgen – D.S.: Mae unrhyw dull yn galw am gydymffurfiaeth â hawliau dynol / dull anwahaniaethol. Ystyried os bydd dull dethol yn cyd-fynd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.)</p> <p>Cydnabod cost gyllidebol uchel yr elfen.</p> <p>Mae angen i gyngor cyfreithiol gadarnhau adrannau 34-38 CRoW i ddarparu mynediad</p> |

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|--|--|
| | | <p>gwell o fewn tir mynediad (e.e. terfynau).</p> <p>Mae angen cyngor cyfreithiol ar hyn os yw'r opsiwn yn mynd yn groes i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.</p> |
| 008 | <p>Mae dyletswydd fapio CRow yn parhau i fod yn berthnasol, gan gynnwys darparu mapiau, sef mapiau ar-lein yn awr. Dylai'r darluniau mapio wahaniaethu'r hawliau sy'n gysylltiedig â gwahanol ardaloedd CRow.</p> | <p>(008/amgen – D.S.: gofynion i alinio'r mapiau ac yn blaen â'r canlyniad o Ddiwygiad 3A – mapiau mynediad integredig.</p> <p>Cefnogaeth gyffredinol, gyda chyswllt i 3A am ei bod yn cwmpasu 1A(i), 1A(ii) a 1A(iii).</p> |
| 009 | <p>Y pwerau i ddarparu arwyddion cysylltiedig; symbol/logo newydd ar gyfer hawliau uwch ar gyfer cyfeirbwyntiau ac arwyddion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgiau cyfeirbwyntiau newydd? • Arwyddion pwynt mynediad newydd? • Arwyddion cyfeiriadol? | <p>Mae gan awdurdodau mynediad y pŵer hwn o dan Adran 19 yn barod, felly nid yw'n newid deddfwriaethol. Byddai angen arwyddion newydd.</p> |
| 010 | <p>Newid Atodlen 2 yn unol â bwriad y polisi ar gyfer unrhyw ardaloedd o dir mynediad sydd wedi'u hasesu.</p> | <p>010/amgen – diwygio Atodlen 2 ar sail fwy cyfyngedig na bwriad y polisi, er mwyn caniatáu amrywiadau o ran cymhwyso hawliau uwch ar sail ddethol, e.e. i feicwyr a/neu farchogion yn unig.</p> <p>Safbwyntiau cymysg ar rinweddau elfen 010 a 010/amgen.</p> |
| 011 | | <p>[011/amgen – mynediad 'gwell' yn ôl galw</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rôl i'r awdurdod unedol / fforwm mynediad lleol wneud penderfyniad • Mae angen dull priodol o fynediad hefyd • Llacio Atodlen 2] <p>Gweler elfen 002 oherwydd mae hon yn berthnasol.</p> |

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|---|---|
| 012 | Yr eithriadau a chyfyngiadau i barhau fel y maent ar hyn o bryd. | <p>(012/amgen – adolygu a diwygio eithriadau a chyfyngiadau er mwyn addasu'r system ar gyfer hawliau uwch newydd.)</p> <p>Gellid hepgor 012 a 012/amgen oherwydd nad oes unrhyw dystiolaeth bod angen rhesymau newydd eithriadau a chyfyngiadau, felly mae'r sefyllfa bresennol yn parhau. I'w nodi fel ystyriaeth/cyngor.</p> |
| 013 | <p>Diwygio pwerau i ganiatáu gwelliannau i ddulliau mynediad ac o fewn tir mynediad ar gyfer hawliau uwch ac sy'n berthnasol i dir mynediad CRoW yn gyffredinol. Byddai'n cael ei weithredu yn ôl disgrisiwn awdurdodiadau mynediad.</p> | <p>Mae gan awdurdodau mynediad bwerau eisoes dros fynediad i dir mynediad. Mae angen cyngor cyfreithiol pellach i gadarnhau a yw deddfwriaeth adrannau 34-38 yn darparu ar gyfer mynediad gwell ar dir mynediad; gallai presenoldeb terfynau mewnol sydd eisoes yn hygyrch fod yn rhan o'r broses o asesu ar gyfer coridorau.</p> |
| 014 | <p>Mynediad 'gwell' yn ôl addasrwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • A all y tir ymdopi â'r pwysau? • A yw'n bosibl cael mynediad i'r tir? • Galw??? | Gweler elfen 002 oherwydd gellir ymgorffori hyn. |
| 015 | <p>Atebolrwydd / eithriadau a chyfyngiadau i helpu perchennog/meddianwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cadw llai o atebolrwydd yn ystod eithriadau a chyfyngiadau? • Atebolrwydd (yr un fath â Lloegr – Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir)? • Llai o atebolrwydd oherwydd anaf a achoswyd gan dda byw? • Sathru o amgylch safleoedd 'pot mêl' neu bwyntiau mynediad? | <p>Mae atebolrwydd CRoW yn berthnasol i bawb sy'n cael mynediad cyfreithiol i dir a gellid cyflwyno lefel wahanol o atebolrwydd yn debyg i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 [Lloegr].</p> |

1A(iii): Ystyriaethau ar gyfer diwygio neu ddatblygu'r cynnig opsiwn a'r elfennau allweddol ymhellach

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|--|---|
| 001 | <p>Diwygio Deddf CROw i ddarparu pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau/coridorau llinellol ar dir mynediad CROw y mae'r hawliau uwch yn berthnasol iddynt.</p> | <p>Mae angen cyngor cyfreithiol ar oblygiadau diffinio coridorau detholedig o dir mynediad CROw ar gyfer hawliau uwch, ac unrhyw ofynion iawndal yn benodol.</p> <p>Noder mai'r opsiwn hwn sydd â'r gost uchaf ac mae awdurdodau mynediad wedi nodi eu cyfyngiadau cyllidebol.</p> <p>Diwygio'r elfen allweddol i ddatgan ei bod yn cael ei hystyried fel opsiwn ar gyfer beicwyr a marchogion [sy'n wahanol i fwriad y polisi].</p> <p>Y ffordd symlaf o ddeddfu'r hawl wirioneddol yw drwy ddileu cydsyniad y tîrffeddiannwr o Atodlen 2, paragraff 7(1).</p> |
| 002 | <p>Pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio y byddai llwybrau hawliau uwch CROw yn berthnasol i unrhyw dir mynediad penodedig presennol neu dir penodedig o dan CROw.</p> <p>Byddai cymhwyso hawliau uwch ar gyfer coridorau a nodwyd yn rhan o broses ddiffinio a byddai'n ddarostyngedig i'r awdurdod mynediad benderfynu ar hyn. Cynnwys rhagdybiaeth ar gyfer y mynediad lleiaf rhwystrol.</p> <p>Pwerau i reoliadau bennu proses o ddiffinio coridorau hawliau uwch newydd, gan gynnwys ystyriaeth ddewisol yr awdurdod mynediad, cymhwysiad, asesiad o'r llwybr arfaethedig, penderfynu ar y llwybr arfaethedig, a'i weithredu. Proses gynnig/asesu i ddiffinio ardaloedd lle gellid cymhwyso hawliau uwch newydd:</p> | <p>Hepgor 002/amgen – oherwydd bod y mater hwn yn un i'w ystyried o fewn Diwygiad 1B.</p> <p>Mae angen cyngor cyfreithiol ar gyfer dewis coridorau ar dir mynediad CROw ar gyfer hawliau uwch. Os caiff yr elfen hon ei datblygu, byddai angen cyngor ar y broses gyfreithiol ar gyfer nodi, diffinio a gweithredu llwybrau (ynghyd ag unrhyw iawndal). Gallai Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn Lloegr fod yn dempled ar gyfer hyn.</p> <p>Mae elfen 002 yn cwmpasu rheoliadau posibl (ond mae elfen 001 yn cwmpasu'r newid i'r Ddeddf); gellid symleiddio geiriad yr elfen er mwyn i'r</p> |

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|---|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig drwy gais (unigol, fforymau mynediad lleol); neu • Cynnig gan ac yn ôl disgrisiwn awdurdod mynediad • Asesiad o'r cynnig yn erbyn meini prawf penodol • Gofynion ymgynghori (i gynnwys fforymau mynediad lleol) • Argymhelliad • Penderfyniad gan awdurdodiad mynediad CRoW • Gweithredu llwybr (gan gynnwys dull o gael mynediad i'r tir ac oddi fewn iddo) <p>Meini prawf i'w diffinio mewn rheoliadau, gan gynnwys galw/angen, nodweddion llwybrau (gan gynnwys dimensiynau coridor), hawliau mynediad presennol, nodweddion ffisegol, cadwraeth natur/treftadaeth.</p> | <p>elfen allweddol nesaf fod yn haws ei darllen.</p> |
| 003 | <p>Adolygu a datblygu deddfwriaeth eithriadau a chyfyngiadau CRoW bresennol i ddarparu ar gyfer llwybrau hawliau uwch CRoW; cynnwys pŵer i gyfyngu llwybrau CRoW yn ôl gweithgarwch ac i atal neu adfer difrod o ganlyniad i effeithiau gweithgareddau penodol.</p> <p>Eithriadau a chyfyngiadau ar lwybrau CRoW i gynnwys rhagdybiaeth o deithio ymlaen ac i ganiatáu amrywiad i lwybr neu ddarparu llwybr amgen ar gyfer teithiau cysylltiol o'r fath.</p> | <p>Gellir cyflawni'r paragraff cyntaf eisoes o dan CRoW (yn ddarostyngedig i'r opsiwn lleiaf rhwystrol).</p> <p>Mae yna amserlenni cyfreithlon mewn ceisiadau i ganiatáu coridor teithio ymlaen heb orfod cynnal yr asesiad cynhwysfawr iawn uchod, a allai olygu ein bod yn agored i herio, felly mae angen cyngor cyfreithiol.</p> <p>Byddai rhaid i bwerau i ddarparu coridor teithio ymlaen wneud hyn ar gyfer llwybr ar dir mynediad CRoW (naill ai'r un tiffeddiannwr neu un arall) / hawliau tramwy cyhoeddus/ ffyrdd. Byddai'n rhaid i ddeddfwriaeth sicrhau y gellid cyflymu'r broses hon os defnyddir tir CRoW heb hawliau uwch.</p> <p>Gellid gwneud hyn drwy ddiwygio Atodlen 2 7(2)(b) er</p> |

| Cyfeirnod yr elfen allweddol | 1A(i) Yr elfen ofynnol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol | Diwygiadau i'w hystyried er mwyn gwella elfen allweddol yr opsiwn |
|------------------------------|--|--|
| | | <p>mwyn i'r awdurdod perthnasol neu'r awdurdod mynediad nodi cyfnod (gan ragdybio bod Atodlen 2 7(1) yn cael ei diwygio yn unol â 001 isod).</p> <p>Ni fydd pob llwybr yn llwybr trwodd – e.e. efallai y bydd yn arwain at olygfan.</p> |
| 004 | <p>Adolygu a diwygio adrannau 34-38 CRow i ddarparu pwerau i awdurdod mynediad hwyluso'r dull mynediad i dir mynediad ac oddi fewn iddo ar gyfer defnyddwyr hawliau uwch [ac ar gyfer pobl â phroblemau symudedd] pan fydd angen.</p> <p>Pwerau i ddarparu canllawiau a chyngor ynghylch y math o ddarpariaeth ar gyfer hwyluso hawliau uwch ac i ystyried mynediad lleiaf rhwystrol.</p> | <p>[004/amgen – cynnal adrannau 34-38 fel y maent os ceir dehongliad cyfreithlon eu bod eisoes yn addas.</p> <p>Dyletswydd i ddarparu canllawiau o'r fath.</p> <p>Mae angen cyngor cyfreithiol i benderfynu a yw adrannau 34-38 eisoes yn darparu'r pwerau sydd eu hangen i hwyluso mynediad <u>o fewn</u> tir mynediad yn ogystal â mynediad i dir mynediad.</p> |
| 005 | <p>Cyflwyno cod statudol sy'n nodi'r cyfrifoldebau a'r hawliau mewn cysylltiad â hawliau newydd. Y pwerau i gynnwys torri'r cod yn arwain at 'ddiddymu' hawliau a/neu ddarparu cosb. Mae pwerau i orfodi yn cynnwys swyddogion enwebedig awdurdodau lleol / Awdurdodau Parciau Cenedlaethol [gan gynnwys hysbysiadau cosb benodedig] – yn ogystal â'r llysoedd a'r heddlu.</p> <p>Darparu adnoddau i ddatblygu a chefnogi'r cod, gan gynnwys gwybodaeth, addysg a hyrwyddo i bobl yng Nghymru ac ymwelwyr.</p> <p>Dyletswydd i hyrwyddo'r cod i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a phob awdurdod mynediad.</p> | <p>[005/amgen – datblygu cod mynediad statudol mewn cysylltiad â phob mynediad statudol.]</p> <p>Mae Adran 20 yn caniatáu ar gyfer cod cynghori.</p> <p>Byddai angen cyngor ynglŷn â pha gosbau fyddai'n cael eu caniatáu ac mae'r opsiwn hwn yn drwm o ran adnoddau.</p> <p>Gellid datblygu cod mynediad statudol gorfodol o fewn gwaith penodol i ddiwygio'r cod.</p> <p>Nid yw diwygiadau yn ddibynnol ar elfen wybodaeth a hyrwyddo. Byddai'n creu goblygiadau o ran adnoddau ar y cam gweithredu.</p> |

Crynodeb o'r camau nesaf

Ar ôl cwblhau'r adroddiad dadansoddi drwy weithredu awgrymiadau aelodau'r grŵp llywio, gwneir diwygiadau ar gyfer yr Adolygiad Gweinidogol ym mis Tachwedd. Ym mis Ionawr 2021, cynhelir sesiynau terfynol y grŵp arbenigol, a'r rhain fydd y cyfarfodydd dethol opsiynau. Ar ôl hyn, bydd adroddiad terfynol yn cael ei ysgrifennu i'w gyflwyno i'r Gweinidog ar ddiwedd mis Mawrth 2021.

Atodiad 1: Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r 'cais am dystiolaeth'

Ymatebodd cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol i'r 'cais am dystiolaeth' gan y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad a anfonwyd yn ystod haf 2020:

Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor, Gwynedd

Fforwm Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Cymdeithas Ceffylau Prydain (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Cyngor Mynydda Prydain (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Cadw

Canŵ Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Awdurdod Lleol Ceredigion (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (*cynrychiolydd/cynrychiolwyr grŵp arbenigol*)

Cycling UK (*cynrychiolydd/cynrychiolwyr grŵp arbenigol*)

Fforwm Mynediad Lleol ar y Cyd Sir y Fflint a Wrecsam

Y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad

Y Weinyddiaeth Amddiffyn (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Cynrychiolydd cenedlaethol, fforymau mynediad lleol Cymru

Y Gymdeithas Mannau Agored (*cynrychiolwyr grŵp arbenigol*)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Fforwm Mynediad Lleol Powys

Fforwm Mynediad Lleol Rhondda Cynon Taf

Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru

Dinas a Sir Abertawe (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru (aelod o'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (*cynrychiolydd grŵp arbenigol*)

Ymatebion mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru

- Y Tîm Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
- Y Tîm Gwybodaeth a Thystiolaeth o fewn Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
- Y Tîm Rheoli Tir
- Y Tîm Ecosystemau Morol ac Arfordirol
- Y Tîm Polisi a Chynllunio Morol ac Arfordirol
- Gweithrediadau Gogledd-orllewin Cymru
- Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru
- Tîm Safleoedd Gogledd-orllewin Cymru
- Tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored
- Tîm Gweithrediadau Canol De Cymru
- Y Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- Mannau Cynaliadwy – Y Tîm Rheoli Tir a Môr
- Y Tîm Llesiant ac Integreiddio